Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14

Asiantaeth Cymorth
Cyfreithiol

# Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14**

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Gorchymynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 24 Mehefin 2014.

HC141

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu e-bostio PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk Pan fo deunydd trydydd parti wedi'i nodi, mae'n rhaid ceisio caniatâd gan y deiliad hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn: Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 102 Petty France, London, SW1H 9AJ.

Argraffedig 9781474105934
Ar y we 9781474105941

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Reolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 03061404 06/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys


**Datganiad y Prif Weithredwr** 1

**Adroddiad strategol** 5

**Ynglŷn â'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol** 6

**Ein trefn lywodraethu** 8

**Ein blwyddyn mewn manylder** 11

Pontio i fod yn asiantaeth weithredol 11

Ein llwyddiannau yn 2013-14 11

Ein perfformiad yn erbyn ein tri amcan strategol 12

**Ein perfformiad** 20

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 20

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 21

**Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol** 26

Cynnal ein hamcanion strategol a chyflawni ein rhaglenni newid 26

Gwella'r ffordd yr ydym yn rhyngweithio gyda'n darparwyr 27

Gwneud i'r ACC fod yn lle gwell i weithio ynddo 27

**Adroddiad y Prif Weithredwr** 31

**Sylwadau ar reolaeth** 32

**Polisïau a gwybodaeth allweddol** 35

**Amgylcheddol, cymdeithasol, cymunedol a hawliau dynol** 40

# Datganiad y Prif Weithredwr

# Datganiad y Prif Weithredwr



Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyntaf yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC). Mae ein blwyddyn gyntaf fel yr ACC wedi bod yn un o wella ein prosesau, tra'n llwyddo i gynnal perfformiad cryf. Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf rwyf yn falch o'r sefydliad yr ydym wedi ei greu gyda'n gilydd. Rydym wedi gweithio'n galed gyda darparwyr a'n partneriaid yn y system gyfiawnder er mwyn gostwng ein hamseroedd prosesu, creu effeithlonrwydd, cynnal safonau uchel o ran stiwardio arian cyhoeddus, ac rydym yn parhau i ostwng ein costau gweinyddol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cymryd camau arwyddocaol eraill tuag at wireddu ein tri Amcan Strategol (AS).

**AS1: Gwella gwaith achos er mwyn lleihau costau, gwella rheolaeth a chynnig gwell gwasanaeth cwsmeriaid**

Yn ystod y flwyddyn rydym yn gyson wedi taro ein holl dargedau perfformio o ran prosesu ceisiadau a biliau darparwyr, ac wedi gostwng yn arwyddocaol nifer y biliau yr ydym yn eu gwrthod. Mae hyn wedi helpu i wella'r gwasanaeth y mae darparwyr yn ei dderbyn. Rydym hefyd wedi parhau i atgyfnerthu ein rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn, gan leihau camgymeriadau a'u cadw'n is nag 1%, ac unwaith eto wedi cynhyrchu ein Cyfrifon ar gyfer 2013-14 yn ddiamod.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu ein System Reoli Cleientiaid a Chostau (SRCCh), gan symud o'r cyfnod peilot i ddefnydd cenedlaethol. Mae hyn wedi golygu gweithio'n agos â darparwyr ac adfocadau er mwyn eu cefnogi wrth ddefnyddio'r system. Rydym wedi monitro perfformiad yn agos ac wedi ymgysylltu â darparwyr, adfocadau a'u cyrff cynrychioladol er mwyn ystyried adborth a chyfleoedd i wella'n barhaus. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn lansio nifer o fentrau newydd er mwyn sicrhau bod hyd yn oed mwy o'n gwasanaethau yn ddigidol yn bennaf.

**AS2: Gwella gallu sefydliadol er mwyn wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, yn cynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy**

Unwaith eto mae ymroddiad ein staff wedi gwneud argraff arnaf, a dyma sydd wedi ysgogi'n llwyddiannau eleni. Amlygwyd hyn gan eu hymateb i'r ymchwydd mewn ceisiadau y bu i ni eu derbyn yn ystod dyddiau olaf cyn i'r newidiadau i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (DCCDChT) 2012 ddod i rym ym mis Ebrill 2013. Ym mhob rhan o'r ACC, cydweithiodd y timau i sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyrraedd safonau ein gwasanaeth.

Rydym yn gwerthfawrogi lles a datblygiad ein pobl. Eleni rydym wedi datblygu offer megis Byrddau Gwybodaeth i Dimau a sgyrsiau ar y we er mwyn rhoi gwybodaeth i staff, eu galluogi i ofyn cwestiynau a chael adborth. Rydym wedi meithrin teimlad o bwrpas cyffredin drwy annog trafodaethau rheolaidd ymysg yr holl dimau, gwella gweledigaeth yr uwch dîm rheoli, hyrwyddo arferion da o ran rheoli perfformiad, a gweithio i hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd datblygu sydd ar gael i weision sifil. Hefyd, rydym wedi cyflwyno

cynllun sy'n golygu bod pob aelod o'n Grŵp Arweinwyr Uwch yn mentora o leiaf ddau aelod o'r staff. Byddwn yn rhoi hyd yn oed mwy o'n hegni i'r maes hwn yn 2014-15.


**AS3: Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf er mwyn sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu'n llawnach tuag at gyfiawnder ehangach ac amcanion y Llywodraeth**

Fel asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (WC), rydym erbyn hyn yn rhan ganolog o gyflawni amcan y WC o weithredu system gyfiawnder fwy effeithiol, rhatach a mwy ymatebol i'r cyhoedd. Bu i ni ddechrau'r flwyddyn hon drwy gwblhau gweithredu pecyn Diwygiadau i Gymorth Cyfreithiol (DGC) yn brydlon ac o fewn y gyllideb gan weithio'n agos â chydweithwyr yn y WC ar gynigion Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol. Bydd y rhain yn arwain at fwy o arbedion sylweddol i'r trethdalwr.

Ar yr un pryd rydym wedi parhau i weithio'n galed i atgyfnerthu ein perthynas â darparwyr a'u cyrff cynrychioliadol. Rydym wedi gallu gweithio gyda'n gilydd i daclo'r rhesymau cyffredin dros wrthod biliau gan yr ACC. Rydym hefyd wedi gallu gostwng nifer y camgymeriadau o ran ein taliadau a chymhwysedd y ceisiadau a ganiateir, ac rydym wedi llwyddo i wneud hyn drwy gydweithredu â'r darparwyr.

Gyda'n gilydd rydym wedi llwyddo i gyflawni llawer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wedi gosod y sylfaen ar gyfer asiantaeth weithredol lwyddiannus a chydnerth. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau 2013-14 ac yn parhau i wella'r gwasanaeth a ddarparwn. Byddwn yn gwneud hyn drwy ganolbwyntio'n ddiflino ar ein tri amcan strategol allweddol a thrwy symud y rhan fwyaf o'n gwasanaethau ar-lein drwy weithredu ein rhaglenni newid.

Y cyfan sydd ar ôl i mi ei wneud yw diolch i'n staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn hefyd ddiolch i Owen Mapley, ein Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformio a adawodd yr ACC ym mis Ebrill 2014. Bu Owen yn rhan allweddol o adeiladu ein galluogrwydd ariannol a sefydliadol yn ogystal ag atgyfnerthu ein Fframwaith Rheoli a Sicrwydd Ariannol yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac rwy'n ddiolchgar am ei gyfraniad. I gloi, hoffwn ddiolch i holl aelodau Bwrdd ACC sydd wedi chwarae rôl allweddol wrth sefydlu ein strwythur llywodraethol newydd a darparu arolygiaeth ac arweiniad wrth i ni gymryd ein camau cyntaf fel asiantaeth weithredol.



**Matthew Coats**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
18 Mehefin 2014

# Adroddiad strategol

# Ynglŷn â'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae'r bennod hon yn adrodd am bwrpas yr ACC, ei darparwyr, ei phobl, ei uwch dîm rheoli, prif fyrddau a phwyllgorau'r ACC a'r craffu arni drwy weithdrefnau seneddol.

**Pwrpas yr ACC yw darparu cymorth cyfreithiol yn effeithiol ac effeithlon fel rhan o'r system gyfiawnder.**

Mae'r ACC yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr cyfreithiol a'r WC ehangach er mwyn cyflawni ei phwrpas. Mae ei gwaith yn rhan hanfodol o weithredu'r systemau cyfiawnder sifil, teuluol a throseddol yn deg, effeithlon ac effeithiol. Y pwrpas hwn sy'n arwain cynllunio a phenderfyniadau'r ACC ac felly mae'n sicrhau bod y sefydliad yn parhau i ddatblygu mewn ffordd sy'n cryfhau ei allu i gyflawni'r swyddogaeth sylfaenol hon.

Mae'r ACC yn asiantaeth weithredol i'r WC ac fe'i crëwyd ar 1 Ebrill 2013 fel olynydd i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (CGC) oedd yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol (CCA) ac a ddiddymwyd fel rhan o Ddeddf DCCDChT 2012. Mae'r ACC yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr ac mae ei phencadlys yn y WC yn Llundain.

Mae'r ACC yn cynnal presenoldeb rheoli contract rhanbarthol er mwyn bod yn ffisegol agos at ei chronfa o ddarparwyr a phartneriaid eraill yn y system gyfiawnder. Mae hyn yn cael ei gyflawni gan ychydig mwy na 100 o reolwyr contract. Mae swyddogaeth Rheoli Achosion yr ACC, a ddarperir gan staff o tua 850, yn cael ei harwain o dri phrif leoliad: De Tyneside ar gyfer sifil a theuluol, Nottingham ar gyfer troseddol, a Llundain ar gyfer achosion eithriadol a drud iawn. Mae Rheoli Achosion a swyddogaethau eraill hefyd yn cael eu cyflawni yn Birmingham, Brighton, Bryste, Caergrawnt, Caerdydd, Caer, Leeds, Lerpwl, Manceinion a Reading. Mae'r Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus (GAC) yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac mae ganddo'r gallu i ddarparu'r gwasanaeth yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn atebol i'r Senedd am weithgareddau a pherfformiad yr ACC. Hefyd, yng Nghymru, mae'r ACC yn cynnal cysylltiadau agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel cydnabyddiaeth o'r weinyddiaeth ddatganoledig.

Mae'r ACC yn gweithio ag ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfreithwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr a gwasanaethau cyngor cyfreithiol. Mae llawer o'n darparwyr cymorth cyfreithiol yn fentrau bach neu ganolig ac maent yn cynnwys unigolion hunangyflogedig, cwmnïau cyfreithwyr mawr, sefydliadau dielw, a strwythurau busnes gwahanol.

Derbyniodd yr ACC arian drwy bleidlais yn y Senedd i weinyddu ei dyletswyddau ac adroddwyd amdani yn Amcangyfrifon Cyflenwadau Ategol y WC ar gyfer 2013-14. Hyn osododd y gyllideb ar gyfer gwariant Cronfa Cymorth Cyfreithiol, a rannwyd yn Gymorth Cyfreithiol Sifil a Throseddol, ac yn gyllideb Weinyddol. Hefyd, ar 1 Ebrill 2013 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyllidebu a chyfrifo Cronfeydd Canolog o'r WC i'r ACC.

### Cymorth Cyfreithiol Sifil

Mae Cymorth Cyfreithiol Sifil ar gael ar gyfer achosion sy'n ymwneud â bywyd, rhyddid, diogelwch corfforol unigolyn a digartrefedd drwy gyngor cyfreithiol, cyfryngu teuluol a chynrychiolaeth mewn llysoedd a rhai tribiwnlysoedd. Mae hyn yn bosibl pan fo hawlwyr yn bodloni'r prawf "modd" a "theilyngdod" ac mae ar gael ar gyfer ystod o gategorïau megis problemau ynglŷn â thai, dyled, teulu neu addysg.

Mae Cymorth Cyfreithiol Sifil yn cynnwys cyfreithwyr dan gontract, cyfryngwyr ac asiantaethau cynghori sy'n darparu cyngor cyfreithiol sifil a theuluol. Mae Cymorth Cyfreithiol Sifil hefyd yn darparu llinell gynghori genedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n cynnwys gwasanaethau dros y ffôn ac ar y rhyngrwyd. Rydym hefyd yn contractio darparwyr i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil wyneb yn wyneb ar gyfer ystod o gategorïau megis teuluol a gofal yn y gymuned.

## Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Mae Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn cynnwys cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth i bobl sy'n destun ymchwiliad neu a gyhuddir o droseddu. Caiff cymorth cyfreithiol ei roi ym mhob achos troseddol pan fo'r hawliwr yn bodloni'r prawf "modd". Cymorth Cyfreithiol Troseddol sy'n rheoli cynlluniau cyfreithwyr ar ddyletswydd mewn gorsafoedd heddlu a llysoedd ynadon, ac mae hyn yn sicrhau y gall y rhai sydd angen cyngor a chynrychiolaeth weld cyfreithiwr. Mae'r ACC yn comisiynu cymorth cyfreithiol yn Llysoedd y Goron drwy Gynlluniau Ffioedd Graddedig Cyfreithwyr ac Adfocadau (CFfGC/CFfGA), yn ogystal â chontractio'n uniongyrchol â darparwyr drwy'r tîm Achosion Costau Uchel. Mae'r ACC hefyd yn ariannu achosion cymorth cyfreithiol yn yr uwch lysoedd megis y Llys Apêl ac yng Ngoruchaf Lys y DU. Mae'r GAC yn darparu gwasanaethau amddiffyn troseddol yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

## Gweinyddiaeth yr ACC

Mae cost gweinyddu'r cynlluniau cymorth cyfreithiol yn cynnwys costau cyflogeion yr ACC, costau ystadau mewn perthynas â rhent, ardrethi a chostau gwasanaethu ei eiddo, costau Llysoedd a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd EM am brosesu cymorth cyfreithiol troseddol ar ran yr ACC, costau Technoleg Gwybodaeth (TG) a chostau mewn perthynas â phostio, hyfforddiant, teithio a meysydd gwariant eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer gweinyddu'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol yn effeithiol.

## Cronfeydd Canolog

Mae gwariant Cronfeydd Canolog yn digwydd o dan delerau Deddf Erlyn Troseddau 1985, pan fo diffynyddion sydd wedi'u rhyddfarnu sydd wedi ariannu eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat, ac erlynyddion preifat, yn gallu caffael gan Lys y Goron, mewn amgylchiadau cyfyngedig, gorchymyn i gaffael eu costau.

Roedd gwybodaeth ariannol gymharol y Cronfeydd Canolog ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn gynwysedig yn Natganiadau Ariannol 2012-13 y WC. Mae'r wybodaeth ar gyfer y flwyddyn bresennol yn gynwysedig yn Natganiadau Ariannol yr ACC.

## Rhaglenni newid

Mae blwyddyn gyntaf yr ACC fel asiantaeth weithredol wedi'i nodweddu â pherfformiad cryf o ran gweithredu a rheoli ariannol, ac mae hyn i gyd wedi cael ei gyflawni ynghyd â nifer o raglenni newid sylweddol ac mewn perthynas â darparwyr a phartneriaid yn y system gyfiawnder ehangach.

Tair prif raglen newid yr ACC yw:

- Rhaglen Newid Troseddau (RhNT) - Amcan y rhaglen hon yw prosesu holl geisiadau a biliau cymorth cyfreithiol troseddol mewn ffyrdd ddi-bapur ac electronig.
- Rhaglen Gyflawni Integredig (RhCI) - Mae'r rhaglen hon yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu SRCCh sy'n galluogi'r ACC i ganiatáu cymorth cyfreithiol, talu biliau ac adennill dyledion yn electronig ar gyfer gwaith sifil ardystiedig.

- Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol - Gan weithio â pholisi'r WC, mae'r ACC eisoes wedi dechrau cyflawni diwygiadau i wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol a sifil y mae disgwyl iddynt greu tua £215 miliwn o arbedion ychwanegol erbyn 2018-19. Mae'r ACC yn gyfrifol am weithredu cynigion Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol (TCC), gan gydweithio â'r proffesiwn cyfreithiol er mwyn gwneud hyn mor effeithiol â phosibl. Gweler tudalen 23 am fwy o fanylion.

# Ein trefn lywodraethu

### Pwyllgor Archwilio

Pwrpas Pwyllgor Archwilio'r ACC yw cefnogi Bwrdd yr ACC a'r Swyddog Cyfrifyddu gyda'u cyfrifoldebau mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag archwilio, llywodraethu corfforaethol, risg, rheolaeth fewnol, sicrwydd, rheoleidd-dra a phriodoldeb yr ACC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gwneud penderfyniadau ar faterion mewn perthynas ag archwilio mewnol ac allanol, llywodraethu corfforaethol, polisïau gwrth-dwyll, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu adroddiadau archwilio mewnol, adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) ac adolygiadau eraill o'n gwaith megis adolygiadau Gateway.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn. Mae hefyd yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i adolygu Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr ACC.

### Bwrdd yr ACC

Mae Bwrdd yr ACC yn trafod materion strategol allweddol, gyda'r bwriad o sicrhau bod yr ACC yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â gweithredu ariannu cymorth cyfreithiol a gwireddu amcanion corfforaethol.

Yn gyffredinol mae Bwrdd yr ACC yn cyfarfod deg gwaith y flwyddyn, sef unwaith y mis ac eithrio Awst a Rhagfyr. Hefyd cynhaliwyd dwy sesiwn strategaeth Bwrdd yr ACC yn ystod y flwyddyn.

### Tîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr, ac mae'n gyfrifol am reoli'r ACC o ddydd i ddydd. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn cyfarfod yn wythnosol.

### Craffu Seneddol

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC)**
Ni fu craffu uniongyrchol ar yr ACC gan y PCC yn 2013-14. Bu i'r ACC barhau i weithredu i ymateb i adroddiadau blaenorol y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad y Pwyllgor yn 2012 y dylai'r WC nodi cynllun eglur i leihau camgymeriadau o ran taliadau cymorth cyfreithiol. Mae'r ACC yn parhau i wella ei fframwaith sicrwydd cyffredinol ac yn gwneud mwy o gynnydd wrth leihau nifer y camgymeriadau o ran taliadau cymorth cyfreithiol.

Gostyngodd niferoedd y camgymeriadau o 1.7% yn 2011-12 i 0.7% yn 2012-13, gan arwain at ddiddymu amod rheoleidd-dra o Gyfrifon blwyddyn olaf y CGC. Mae'r ACC wedi parhau i gadw niferoedd y camgymeriadau yn is na 1% drwy gydol 2013-14.

**Y Pwyllgor Cyfiawnder**
Ni fu craffu uniongyrchol ar yr ACC gan y Pwyllgor Cyfiawnder yn 2013-14.

***Ein trefn lywodraethu - parhad***

Mae'r tabl canlynol yn dangos trefn lywodraethu'r ACC.

## Tabl A: Trefn lywodraethu'r ACC

| | Rhyw G/B | Bwrdd yr ACC | | Tîm Rheoli Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Aelod | Wedi cael gwahoddiad | Aelod | Wedi cael gwahoddiad | Aelod | Wedi cael gwahoddiad |
| **Aelod Gweithredol** | | | | | | | |
| Matthew Coats,<br>Prif Weithredwr yr ACC<br>*Cadeirydd y Bwrdd* | M | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Hugh Barrett<br>*Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth* | M | ✓ | | ✓ | | | |
| Owen Mapley<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad (Gadawodd 10 Ebrill 2014)* | M | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Shaun McNally CBE<br>*Cyfarwyddwr Rheoli Achosion* | M | ✓ | | ✓ | | | |
| Ruth Wayte<br>*Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol yr ACC* | B | ✓ | | ✓ | | | |
| Ann Beasley*<br>*Cyfarwyddwr Cyllid Cyffredinol y WC* | B | ✓ | | | | | |
| Damon Norville<br>*Cyfarwyddwr Busnes, Newid a Thechnoleg Gwybodaeth (gadawodd 13 Mai 2013)* | M | | ✓ | ✓ | | | |
| *Pennaeth Technoleg Gwybodaeth, Digidol a Newid (o 2 Rhagfyr 2013)* | M | | ✓ | ✓ | | | |
| Sandra Corrigan<br>*Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol (gadawodd 31 Gorffennaf 2013)* | B | | ✓ | ✓ | | | |
| *Cyfarwyddwr AD (o 1 Awst 2013)* | B | | ✓ | ✓ | | | |
| *Cyfarwyddwr y WC ar Bolisi Cymorth Cyfreithiol* | B | | ✓ | | | | |
| *Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol* | B | | ✓ | ✓ | | | |
| **Anweithredol** | | | | | | | |
| John Grosvenor *(Cyllid)***<br>*Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | M | ✓ | | | | ✓ | |
| Andrew Lockley *(Cyfreithiol)*** | M | ✓ | | | | ✓ | |
| Eric Gregory *(Masnachol)*** | M | ✓ | | | | ✓ | |

* Ann Beasley, Cyfarwyddwr Cyffredinol y WC ar Gyllid, hefyd mynychodd Fwrdd yr ACC. Datgelir manylion ynglŷn â chydnabyddiaeth Ann yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y WC 2013-14
https://www.gov.uk/government/publications.

** Mae eu gwybodaeth arbenigol am y sectorau ariannol, masnachol a chyfreithiol yn ôl eu trefn yn helpu Bwrdd yr ACC i gyflawni ei ddyletswyddau yn y meysydd blaenoriaethol yma.

# Ein blwyddyn mewn manylder

Mae'r bennod hon yn adrodd am brif ddatblygiadau'r flwyddyn ac yn nodi sut y bu i ni berfformio yn erbyn ein tri amcan strategol. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o sut ydym wedi cyfrannu at Ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil a'i bedair thema allweddol: mwy digidol; mwy o sgiliau; creu gwell polisïau; unedig, agored ac atebol.

## Pontio i fod yn asiantaeth weithredol

Mae newid o fod yn CCA i fod yn asiantaeth weithredol i'r WC wedi bod yn newid sylweddol i'n gweithrediadau a'n pobl. Yn 2013-14 bu i ni lwyddo i gyflawni:

- Buddion o £7 miliwn drwy resymoli ein hystadau, rhannu gwasanaethau gyda'r WC yn cynnwys Adnoddau Dynol (AD) a chyfreithiol, ac arbedion mewn Treth Ar Werth (TAW) ar daliadau o fewn y WC
- Cyfuno timau i un swyddfa yn Llundain yn Petty France, oedd yn golygu cau ein swyddfeydd yn Nhŵr Cyfnewidfa Llundain. Mae hyn wedi cwblhau proses gyfuno sydd wedi creu arbedion effeithlonrwydd yn ein portffolio ystadau ac wedi ein cydleoli â chydweithwyr yn y gwasanaeth sifil.

Rydym wedi bod yn gweithio'n gynyddol agos â'r Gwasanaeth Sifil a'r WC yn ystod y blynyddoedd diweddar ac erbyn hyn rydym wedi'n hintegreiddio'n llawn i'r ddau.

## Ein llwyddiannau yn 2013-14

Mae'r ACC wedi parhau i gyflawni yn erbyn ein hymrwymiadau yng Nghynllun Busnes 2013-14 ac yn erbyn ei dri amcan strategol. Mae prif lwyddiannau'r flwyddyn yn cynnwys:

- Pontio llwyddiannus i fod yn asiantaeth weithredol a rhannu gwasanaethau â'r WC sy'n ein galluogi i wireddu effeithlonrwydd
- Perfformiad cryf ar draws yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAon) - manylir am hyn yn adran Ein perfformiad ar dudalen 18
- Rheolaeth ariannol effeithiol yn arwain at fyw o fewn cyllidebau llai am y flwyddyn, a llwyddwyd i wneud hyn drwy ffocws diflino a rheolaeth ariannol gadarn
- Lleihau nifer y camgymeriadau wrth ganiatáu ceisiadau a thalu biliau drwy weithio gyda darparwyr a gwella prosesau'r ACC yn barhaus.
- Lleihau niferoedd y biliau a wrthodir drwy ffyrdd dyfeisgar o ymgysylltu â darparwyr a herio targedau er mwyn lleihau niferoedd y biliau sifil a throseddol a wrthodir
- Taclo'r ymchwydd mewn ceisiadau yn y dyddiau olaf cyn i newidiadau Deddf DCCDChT 2012 ddod i rym drwy waith tîm, cydweithio ac ymroddiad gan staff ym mhob rhan o'r ACC.
- Ymgysylltu llawn â'r WC, ei phartneriaid yn y system gyfiawnder a'r proffesiwn cyfreithiol mewn perthynas â "Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Creu system fwy credadwy ac effeithlon".

Llwyddwyd i wneud hyn oll gyda gwell lefelau o ran canlyniadau ymgysylltu staff. Roedd yna gynnydd o 3% i 60% yn sgôr ymgysylltu ein staff. Mae'r ACC hefyd wedi rheoli capasiti wrth wella galluogrwydd y sefydliad ac wedi creu arweiniad cryf a gwreiddio pwrpas cyffredin.

*Ein blwyddyn mewn manylder - parhad*

## Ein perfformiad yn erbyn ein tri amcan strategol

Yn ystod 2013-14 bu i ni ganolbwyntio ar wireddu Cynllun Busnes cyntaf yr ACC drwy gyflawni ei gerrig milltir, ymrwymiadau a'r tri amcan strategol canlynol:

- **Amcan Strategol 1:** Gwella gwaith achos er mwyn lleihau costau, gwella rheolaeth a chynnig gwell gwasanaeth cwsmeriaid
- **Amcan Strategol 2:** Gwella gallu sefydliadol er mwyn wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, yn cynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy
- **Amcan Strategol 3:** Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf er mwyn sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu'n llawnach tuag at gyfiawnder ehangach ac amcanion y Llywodraeth.

Traciwyd a monitrwyd y cerrig milltir a'r ymrwymiadau drwy fframwaith rheoli perfformiad yr ACC oedd yn cynnwys DPAon oedd yn mesur elfennau arwyddocaol ein gwaith bob dydd: (i) cyflawni gwasanaethau; (ii) cyllid ac effeithlonrwydd; (iii) pobl a galluogrwydd ac (iv) enw da. Hefyd, mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad hefyd yn mesur cerrig milltir allweddol mewn perthynas â chyflawni rhaglenni diwygio'r ACC. Mae cynnydd yn erbyn ein cerrig milltir a'n hymrwymiadau ar gyfer pob amcan strategol wedi'u hamlinellu isod:

### Allwedd ar gyfer amcan strategol, cerrig milltir cyflawni ac adrodd am DPAon

- ✔ Llwyddwyd
- ⇔ Llwyddwyd i raddau helaeth
- ⇔ Llwyddwyd yn rhannol
- ✖ Ni lwyddwyd

**Amcan Strategol 1:**
Gwella gwaith achos er mwyn lleihau costau, gwella rheolaeth a chynnig gwell gwasanaeth cwsmeriaid

### Ymrwymiadau/Cerrig Milltir

- ✔ Adnewyddu ein Strategaeth Gwrth-dwyll
- ⇔ Cwblhau cyflwyno'r SRCCh i holl ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil
- ⇔ Adolygu amseroedd taro targedau ar gyfer gweithio ar achosion sifil o ganlyniad i weithredu SRCCh
- ✔ Adolygu ein Strategaeth Ystadau gyda'r WC
- ⇔ Adolygu ein model gweithredu gwaith achos yn dilyn gweithredu Ddeddf DCCDChT 2012 a'r SRCCh yn llawn
- ✔ Lleihau'r gwaith achos sy'n disgwyl i gael eu prosesu
- ⇔ Canoli rheoli categorïau arbenigol i achosion cost uchel

### Gwella gwaith achos i leihau costau

Crëwyd nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn a amcanwyd at wella gwaith achos a lleihau costau:

- Rydym wedi taro ein targedau prosesu gweithredol drwy gydol y flwyddyn ac wedi lleihau ein costau gweinyddol sylfaenol
- Drwy'r RhNT, rydym wedi cytuno i drosglwyddo gwaith ceisiadau troseddol o Lysoedd a

Gwasanaeth Tribiwnlys EM i'r ACC. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cyflwyno ceisiadau eForm electronig yn genedlaethol, cyflwyno gwaith electronig ar gyfer darparwyr gwaith troseddol a chyflwyno'r modd o allu cyflwyno pob bil ar-lein. Bydd y rhaglen hon yn arwain at arbedion blynyddol o ran costau prosesu ceisiadau cymorth cyfreithiol troseddol.

- Bu i beilot SRCCh ein galluogi i gasglu adborth hanfodol y bu i ni ei ymgorffori i welliannau ychwanegol i berfformiad a ffwythiant y system. Nawr rydym yn cyflwyno'r SRCCh i'r gymuned ehangach o ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil ac i'n timau Rheoli Achosion mewnol.

## Gwella rheolaeth

Yn ystod y flwyddyn bu i nifer o weithgareddau ganolbwyntio ar wella rheolaeth ar weinyddu Cronfa Cymorth Cyfreithiol. Nodir y rhain isod:

- Mae'r ACC wedi cynnal rheolaeth ariannol cryf wrth fyw o fewn ei chyllideb o ran gwariant Cronfa Cymorth Cyfreithiol a lleihau ei chostau gweinyddol. Ar yr un pryd rydym wedi gweithio'n galed i gynyddu lefel yr ymwybyddiaeth fasnachol yn y sefydliad drwyddo draw, gan ddefnyddio trefniadau partneru busnes er mwyn galluogi ein gweithwyr proffesiynol ym maes cyllid i weithio gyda chydweithwyr a chefnogi cydweithwyr sy'n ymwneud â chyflawni gweithrediadau
- Rydym wedi parhau i arddangos lefelau uchel o gywirdeb wrth brosesu. Mae'r gyfradd camgymeriadau'n parhau i fod yn is na 1%. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd mwy o bwyslais ar wiriadau rheoli ansawdd rheolaidd ar lefel leol ac ar lefel swyddfa a phrofi craidd ar lefel genedlaethol er mwyn nodi materion arfaethedig ynglŷn â pherfformiad a hysbysu gweithwyr achos amdanynt
- Cynnydd o £10 miliwn mewn casgliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol eleni (2013-14: £25 miliwn 2012-13: £15 miliwn). Mae hyn wedi cael ei gyflawni mewn partneriaeth â Rossendales, ein contractwyr casglu dyledion a gorfodi. Rydym wedi ail-dendro'r contract casgliadau eleni, a thrwy'r contract hwn rydym yn amcanu at wella casgliadau gros eto i £30 miliwn yn 2014-15.

## Cynnig gwell gwasanaeth cwsmeriaid

Yn ystod y flwyddyn, mae'r ACC wedi canolbwyntio ar wella gwasanaeth cwsmeriaid drwy brydlondeb prosesu ceisiadau a biliau a gwelliannau i'r gwasanaeth ehangach:

- Erbyn hyn mae cwsmeriaid yn cymryd dau funud ar gyfartaledd i gyrraedd gweithredwr llinell gyngor dros y ffôn, i lawr o 20 munud yn 2012-13
- Erbyn diwedd 2013-14 y gyfradd gwrthod biliau sifil oedd 10.7%, o'i gymharu â 27.8% ar ddechrau'r flwyddyn.
  Llwyddwyd i gyflawni'r gostyngiad yn y lefelau gwrthod i raddau helaeth drwy:
  - › Berthnasoedd gweithio agosach rhwng y darparwr a'r ACC
  - › Cyflwyno system cywiro biliau a wrthodir, gwasanaeth ymateb cyflym drwy e-bost, a sefydlwyd i ddelio â phob achos o herio hawliad a wrthodir o fewn 24 awr.
    Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi darparwyr i herio hawliadau a wrthodir y maent yn credu y gwnaethpwyd hynny drwy gamgymeriad
- Datblygwyd y SRCCh eto er mwyn darparu gwell ceisiadau. Mae'r SRCCh yn lleihau lefelau gwrthod; gan arbed amser yr oedd darparwyr yn arfer ei wastraffu wrth ailgyflwyno gwybodaeth. Bydd cyflwyniadau a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar-lein, gan arbed amser

- Bu i brydlondeb prosesu ceisiadau a biliau presennol wella'n gyffredinol yn 2013-14, gyda'r rhan fwyaf o fathau o achosion yn cael eu prosesu 20% yn gyflymach nag yr oeddent yn ystod y flwyddyn flaenorol. Llwyddwyd i gyflawni'r effeithlonrwydd prosesu gwell drwy gyflwyno technegau Gwelliant Parhaus.

### Digidol yn Bennaf

Er mwyn gwella gwaith achos a gostwng costau er mwyn bodloni Amcan Strategol 1 rydym wedi digideiddio ychydig o'n gwasanaethau, a'n hamcan yw bod yn gyfan gwbl ar-lein.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd o ran gwireddu'r amcan hwn gyda thua 60% o'n gwaith sifil a throseddol eisoes yn cael ei reoli ar-lein; yn y rhan fwyaf o'r achosion, y rhain yw'r trafodion bilio mwyaf syml. Mae gennym gyfanswm o 1.9 miliwn o drafodion sifil a throseddol yn gyfan gwbl ar-lein ac mae yna tua 1.2 miliwn o drafodion sydd yn parhau i fod angen eu rhoi ar-lein.

Mae ein dull o weithredu Cymorth Cyfreithiol Sifil yn cael ei gyflawni drwy SRCCh, fydd yn cynnwys holl elfennau'r broses rheoli gwaith sifil ardystiedig o'r dechrau i'r diwedd. Bydd hyn yn ddi-bapur ac yn ar-lein yn unig. Felly hefyd, yn achos Cymorth Cyfreithiol Troseddol, rydym yn ymestyn buddion gweithio ar-lein a byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod gweddill y ceisiadau troseddol ar gael ar-lein.

Mae'r astudiaeth achos canlynol yn dangos sut ydym yn gweithio i gynyddu ein gwasanaethau ar-lein a sut mae hyn yn rhan o **Ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil: Mwy Digidol**.

### Astudiaeth achos #1: Offer cymhwyster digidol

Ym mis Ebrill 2013 lansiwyd offer digidol newydd ar gyfer dinasyddion i wirio a ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, ac yna eu cyfeirio at y ffynhonnell fwyaf priodol o help; yn cynnwys Cyngor Cyfreithiol Sifil, darparwyr cyngor cymorth cyfreithiol neu wasanaethau cynghori am ddim eraill.

Gan adeiladu ar lwyddiant y gwasanaeth hwn, mae'r ACC yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Digidol y WC er mwyn sicrhau y bydd gwasanaeth digidol Cymorth Cyfreithiol Sifil, y bwriedir ei ail-lansio ym mis Tachwedd 2014, yn darparu gwasanaeth ar-lein cyfeillgar i gleientiaid. Mae'r gwasanaeth newydd yn cael ei ddatblygu'n fewnol a bydd yn cyrraedd Safon Gwasanaeth Digidol yn Bennaf y Llywodraeth.

Rydym wedi cychwyn rhaglen o brofi gan ddefnyddwyr er mwyn hysbysu dyluniad a datblygiad technegol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd y system yn ddigon syml a sythweledol i alluogi pobl i'w defnyddio y tro cyntaf, heb gymorth. Byddwn yn parhau i ddarparu mynediad dros y ffôn i ddefnyddwyr sydd angen cymorth.

**Amcan Strategol 2:**
Gwella gallu sefydliadol er mwyn wynebu'r heriau sydd o'n blaenau, yn cynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy

**Ymrwymiadau/Cerrig Milltir**

- ☑ Cau ein swyddfa yn Nhŵr y Gyfnewidfa (Llundain) a symud staff i'n Pencadlys yn Llundain yn 102 Petty France
- ☑ Cwblhau terfynu rhaglen Pontio Asiantaeth Weithredol yn ffurfiol
- ⇔ Creu'r model gweithredu GAC sy'n gyson â'r farchnad amddiffyn troseddol a ailstrwythurwyd
- ☑ Cyflawni ein rhan ni o strategaeth pobl newydd y WC
- ☑ Gwneud defnydd llawn o Ddysgu'r Gwasanaeth Sifil er mwyn cyfoethogi sgiliau a gwybodaeth ein staff
- ☑ Cyflawni ein blaenoriaethau o ran amrywiaeth

## Gwella galluogrwydd sefydliadol

Ers i'r ACC gael ei sefydlu'n wreiddiol rydym wedi adeiladu ar ein hymdrechion sylweddol i sicrhau bod ein pobl wedi eu trwytho a'u hyfforddi'n dda a'u bod wedi ymgysylltu'n dda â'u gwaith.

Daeth staff yr ACC i fod yn weision sifil, newid sydd wedi creu ystod anferth o gyfleoedd, a bu i hyn gael ei groesawu'n gyffredinol. Fel gweision sifil rydym wedi mabwysiadu *Cod y Gwasanaeth Sifil* ac wedi newid i dderbyn tâl ac amodau'r Gwasanaeth Sifil. Hefyd, rydym wedi creu cadernid a galluogrwydd yn y GAC a byddwn yn gweithredu model gweithredol pan fo'r newidiadau mewn polisi a gyhoeddwyd drwy Drawsnewid Cymorth Cyfreithiol wedi eu gwreiddio'n llwyr.

Mae ein pobl eisoes wedi dechrau derbyn cyfleoedd o ran cysgodi a swyddi yn y system gyfiawnder a'r Gwasanaeth Sifil ehangach, ac rydym wedi gweld mudiant iach o bobl i mewn ac allan o'r ACC, ac mae hyn wedi dod ag arbenigedd a chysylltiadau newydd ac wedi arwain at gyfnewid arferion da.

## Datblygu ac ymgysylltu â'n pobl

Yn ystod y flwyddyn olaf mae ein gwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio ar dair thema:

- Gweithredu ar ganlyniadau ein Harolwg Ymgysylltu Staff Cenedlaethol
- Datblygu ein talent
- Sicrhau bod gan yr ACC ddiwylliant cynhwysol a gweithlu cynrychioladol.

Yn 2013-14 bu i ni ddatblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol, a grëwyd mewn partneriaeth â'n pobl, fel ymateb i adborth o'r Arolwg Ymgysylltu Staff Cenedlaethol. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys cyflwyno a chyhoeddi pwrpas cyffredinol i'r sefydliad, hyrwyddo arferion da o ran rheoli perfformiad pobl, cyflwyno Byrddau Gwybodaeth i Dimau gyda sesiynau briffio staff rheolaidd a chyhoeddi'r ystod o gyfleoedd datblygu sydd ar gael i weision sifil.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn cael ei gefnogi gan gynlluniau gweithredu lleol sy'n ymdrin â materion lleol. Mae ein tîm arweiniol yn weledol a hygyrch i'r holl staff yn barhaus drwy ymweliadau dwywaith y flwyddyn gan yr Uwch Grŵp Arweiniol â'r holl swyddfeydd rhanbarthol, cyfathrebu wythnosol rheolaidd â'r holl staff gan y

*Ein blwyddyn mewn manylder - parhad*

Prif Weithredwr sy'n gwahodd adborth ar faterion hanfodol, cyfarfodydd â rheolwyr dwywaith y flwyddyn a sgyrsiau mewnrwyd ar y we am raglenni gwaith amrywiol.

Bu i ni hefyd gydnabod a dathlu llwyddiant timau ac unigolion yr ACC drwy ein seremoni Gwobrau Gweithwyr Cenedlaethol. Rhoddwyd gwobrau mewn wyth categori ac roedd yr enillwyr yn cynnwys y tîm oedd yn gyfrifol am weithio i ddelio â'r ymchwydd mewn ceisiadau cyn gweithredu Deddf DCCDChT 2012, a'r tîm a weithiodd i leihau niferoedd y camgymeriadau, ac a gyfrannodd at sicrhau bod Cyfrifon yr CGC yn ddiamod ar gyfer y flwyddyn oedd yn diweddu 31 Mawrth 2013. Derbyniodd unigolion wobrau am eu gwaith ar amrywiaeth, fel arweinwyr ysbrydoledig ac am waith a wnaethpwyd nid yn unig yn yr ACC ond hefyd yn y gymuned.

Gwelsom gynnydd o 13% yn nifer y staff a gwblhaodd yr Arolwg Ymgysylltu Staff Cenedlaethol, a arweiniodd at gyfradd gyfranogi o 89%. Ar yr un pryd, roedd yna gynnydd o 3% i 60% yn sgôr ymgysylltu ein staff. Roedd y sgôr yma 2% yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil (58%) a bu i hyn ein codi i fod yn rhif 33 allan o 98 o sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil (i fyny o rif 50 yn 2012-13).

Mae ein profiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i ddangos cyfraniad allweddol ein pobl wrth wireddu ein pwrpas, ac mae *Cynllun Gwella Adrannau'r* WC yn sicrhau bod gennym y gallu sefydliadol i wynebu'r heriau sydd o'n blaenau.

Rydym wedi dod yn rhan o raglen rheoli a datblygu talent y WC a'r Llywodraeth, ac mae gennym gynrychiolaeth dda ar ystod lawn o gynlluniau datblygu potensial uchel. Mae ein gweithgareddau rheoli talent wedi galluogi'r ACC i ganfod a datblygu pobl sydd â'r potensial i godi i lefelau uwch, tra'n sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfleoedd i ddefnyddio eu talentau i gyfrannu at amcanion yr ACC.

Bu i ni gynnal arolwg talent staff ym mandiau A a B, a bu i hyn gyfrannu at gynlluniau datblygu arweinyddiaeth unigolion a'n helpu i asesu gallu'r sefydliad a'n hanghenion o ran datblygu arweinyddiaeth.

Gweler y ddolen isod am fwy o wybodaeth am Fandiau Cyflog nad ydynt yn perthyn i'r Uwch Wasanaeth Sifil. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/60737/Payscales_20Combined_0.xls

Un o fuddion dod yn weision sifil yw cael mynediad i Ddysgu'r Gwasanaeth Sifil, gwasanaeth yr ydym wedi ei gyhoeddi a'i hyrwyddo'n eang, a drwy hwn mae ein staff wedi cwblhau cyrsiau hyfforddi gorfodol megis rhai ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym wedi annog staff i gymryd mantais o bum diwrnod dysgu sydd ar gael iddynt bob blwyddyn.

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i ddatblygu ein pobl ac i gyfrannu at **Ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil: Mwy o Sgiliau.**

### Astudiaeth achos #2: Mentora yn yr ACC

Bu i Uwch Grŵp Arweiniol (UGA) yr ACC sefydlu rhaglen fentora eleni, ac mae hon wedi cael ei chroesawu'n dda a bydd yn parhau yn 2014-15. Bu i holl aelodau'r UGA ymrwymo i gefnogi o leiaf dau fentorai gyda ffocws penodol ar ddatblygu gyrfaoedd. Bu i'r fenter helpu i ddatblygu ffocws manwl ar ddatblygu staff ac ar gefnogi ein gilydd. Ategwyd hyn hefyd gan gynlluniau mentora lleol. Er enghraifft, bu i dîm Rheoli Contractau'r ACC sefydlu cynllun er mwyn sicrhau bod eu rheolwyr contractau ar gael fel mentoriaid i aelodau eraill y staff yn y sefydliad drwyddo draw. Mae nifer o gydweithwyr yn cymryd rhan yn y cynllun, a rhai yn cael eu mentora gan reolwr contractau ac eraill yn dewis cysgodi rheolwr contractau am ddiwrnod. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i fentoreion dderbyn cyngor ac arweiniad er mwyn cefnogi eu hamcanion o ran datblygiad personol, cael profiad uniongyrchol o'r berthynas sydd gan yr ACC gyda'n darparwyr, ac archwilio a deall sut y gallwn weithio'n well gyda'n gilydd. Mae mentoriaid hefyd wedi elwa o'r cyfle gan ddatblygu eu sgiliau datrys problemau, a thrwy weithio â phobl o bob rhan o'r ACC, ac mae hyn wedi datblygu eu rhwydweithiau y tu hwnt i reoli contractau.

### Sicrhau bod gan yr ACC ddiwylliant cynhwysol a gweithlu cynrychioladol

Ceir manylion am ein gweithgareddau allweddol yn 2013-14 yn yr adran Amgylchedd, cymdeithasol, cymunedol a hawliau dynol ar dudalen 36.

**Amcan Strategol 3:**
Adeiladu a chynnal partneriaethau cryf er mwyn sicrhau darpariaeth o safon a chyfrannu'n llawnach tuag at gyfiawnder ehangach ac amcanion y Llywodraeth

#### Ymrwymiadau/Cerrig Milltir

- ☑ Gweithio â'r WC i ddylunio mecanwaith cystadleuol ar gyfer contractau troseddol sydd, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad, yn creu'r arbedion a geisiwyd gan raglen Trawsnewid Cyfiawnder
- ☑ Gweithio fel rhan allweddol o'r WC gan gyfrannu at amcanion ehangach y system gyfiawnder sy'n gynwysedig yn rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder
- ☑ Gweithio â'r WC i greu gostyngiad mewn gwariant ar arbenigwyr a chwnsleriaid cymorth cyfreithiol, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad
- ☑ Cwblhau terfynu rhaglen DGCyn ffurfiol a chwblhau adolygiad ôl weithredu o gyflawni'r DGC
- ☑ Tendro contractau wyneb yn wyneb ar gyfer budd-daliadau lles
- ☑ Gweithio'n gadarnhaol ag adrannau eraill y Llywodraeth a rhanddeiliaid

## Creu a chynnal partneriaethau cryf

Rydym wedi rhoi rhaglenni cyfathrebu ac ymgysylltu cryf at ei gilydd sy'n canolbwyntio ar anghenion ein partneriaid a'r ACC. Er enghraifft, rydym wedi gweithio â darparwyr ac eiriolwyr er mwyn helpu i:

- Brofi ein hatebion ar-lein ar gyfer gwaith sifil - y SRCCh
- Trwytho pobl mewn DGC, a dau gymal cyntaf TCC
- Creu dealltwriaeth ynglŷn â gweithio gyda'n gilydd er mwyn gwella safonau amser prosesu a lleihau'r nifer o filiau sifil a wrthodir.

## Cyfrannu'n llawn at gyfiawnder ehangach ac amcanion y Llywodraeth

Yn ystod y cyfnod hwn bu i ni ddechrau darparu cymorth cyfreithiol o dan Ddeddf DCCDChT 2012 a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2013. Roedd hyn yn cynrychioli rhaglen eang iawn o ddiwygio cwmpas cymorth cyfreithiol a chymhwysedd cleientiaid. Erbyn hyn mae'r diwygiadau hyn wedi eu hintegreiddio'n llawn fel rhan o weithrediadau'r ACC.

Hefyd, ym mis Ebrill 2013, lansiodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ymgynghoriad Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol ar ddiwygiadau ychwanegol i gymorth cyfreithiol. Rydym wedi cyflwyno dwy ran gyntaf y diwygiadau i droseddu a hygrededd a'r newidiadau i ffioedd yn 2013-14.

Rydym wedi gweithio'n agos â'r WC yn ystod 2013-14, yn cynnwys ar greu gostyngiadau mewn gwariant ar ffioedd arbenigwyr a chwnsleriaid drwy weithredu un ffi Cwnsela, Sifil a Throseddol. Hefyd, rydym yn gyson wedi taro ein targed cyfathrebu o ran prosesu cwynion a cheisiadau rhyddid gwybodaeth, ceisiadau ynglŷn â Deddf Diogelu Data 1998, a bu cyfathrebiadau gweinidogol o fewn y lefelau targed yn ystod y flwyddyn.

Bu i ni ffurfio cysylltiadau cryfach â thimau polisi'r WC i'n helpu i gyfrannu mwy i'r system gyfiawnder ehangach. Bu i'r ACC chwarae rôl allweddol wrth ddarparu mewnwelediad o safbwynt gweithredu a chyflawni gwasanaethau wrth ffurfio polisi ar gyfer Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol.

Mae'r cysylltiad rhwng llunio polisïau a'u gweithredu a'n perthynas â rhannau eraill o deulu'r WC wedi parhau i fod yn hanfodol ym meysydd TCC a gweithredu diwygiadau eraill.

Mae'r ddwy astudiaeth achos canlynol yn dangos sut ydym wedi gweithio'n dda â rhannau o'r WC a'r asiantaethau allweddol oedd yn gyfrifol am gyflawni'r diwygiadau i gymorth cyfreithiol, a sut ydym wedi cyfrannu at **Ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil: Creu gwell polisïau, unedig, agored ac atebol:**

**Astudiaeth achos #3:**
**Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol**

Mae Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol yn un o bum blaenoriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae'n adeiladu ar y DGC. Dyluniwyd y pecyn diwygiadau a nodir yn ymgynghoriad y Llywodraeth ar Drawsnewid Cymorth Cyfreithiol, a'r ymatebion iddo, i wneud cymorth cyfreithiol yn fwy credadwy o ran hyder cyhoeddus ac i leihau'r bil i drethdalwyr; tra'n sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu mynediad i gymorth cyfreithiol i'r rhai sydd ei angen, yn gwarchod y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas ac yn gweithredu system gyfiawnder effeithlon.

Rydym wedi gweithio'n agos â'r WC yn ystod y cyfnod datblygu polisi gan gynghori ar weithgareddau gweithredu pob diwygiad. Eisoes rydym wedi llwyddo i weithredu cymalau cyntaf y diwygiadau hyn yn 2013-14 ac rydym erbyn hyn yn canolbwyntio ar weithredu gweddill y pecyn.

Y diwygiadau mwyaf arwyddocaol o ran arbedion a heriau i'r ACC yn 2014-15 yw caffael contractau cymorth cyfreithiol troseddol newydd a diwygio gwasanaethau eiriolaeth. Bydd y diwygiadau yn helpu i greu cyfanswm gostyngiad o tua £215 miliwn yn y bil cymorth cyfreithiol erbyn 2018-19.

**Astudiaeth achos #4:**
**Diwygio Cyfiawnder Teuluol**

Fel rhan o'r diwygio eang a wneir i'r System Gyfiawnder teuluol, bu i'r WC sefydlu Llys Teuluol newydd i ddisodli'r Llys Sirol a'r Llys Achosion Teuluol presennol ym mis Ebrill 2014.

Mae'r Cynllun Eiriolaeth Deuluol (CED) ar hyn o bryd yn rhoi cydnabyddiaeth ariannol i eiriolwyr yn seiliedig ar haen y llys. Bu i ni weithio â thimau Cymorth Cyfreithiol a Pholisi Teuluol y WC, a gyda chyrff cynrychioliadol, er mwyn nodi effeithiau'r CED ar ddarparwyr ac i ddatblygu sail arall ar gyfer taliadau. Yna bu i ni weithio'n agos â thîm Gwasanaethau Dadansoddol y WC er mwyn mesur effaith y newidiadau a gyda thimau cyfreithiol y WC er mwyn nodi'r newidiadau angenrheidiol i'r contract ac i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cydnabyddiaeth) 2013.

Mae'r amcanion strategol hyn yn cael eu mesur gan ddefnyddio DPAon. Gweler y dudalen nesaf am fwy o fanylion.

# Ein perfformiad

Mae'r bennod hon yn adrodd am brif ddatblygiadau'r flwyddyn, ac mae'n cynnwys yr ystadegau allweddol mewn perthynas â darparu cymorth cyfreithiol drwy Gymorth Cyfreithiol Sifil a Chymorth Cyfreithiol Troseddol.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAon)

Fel asiantaeth weithredol newydd i'r WC, bu i'r ACC sefydlu fframwaith perfformiad a nododd bedwar DPA allweddol ar gyfer 2013-14 er mwyn monitro cynnydd a pherfformiad. Drwy gydol y flwyddyn adroddwyd am y canlyniadau i'r Tîm Rheoli Gweithredol, Bwrdd yr ACC a Phwyllgor Rheoli Gweithredol y WC. Cyfathrebwyd yn fisol â holl staff yr ACC ynglŷn â chynnydd ar ein safle mewnrwyd.

Yn 2013-14 bu i ni lwyddo mewn perthynas â'r pedwar DPA, ac mae'r canlynol yn darparu mwy o wybodaeth am ein DPA.

Mae'r DPAon wedi bod yn destun archwiliad mewnol gan PwC. Bu i'r archwiliad ganfod bod y system reoli a'r prosesau a sefydlwyd ar gyfer adrodd am DPAon wedi lliniaru risgiau a nodwyd. Yn benodol bu i'r archwiliad ganfod: bod DPAon wedi'u halinio ag amcanion strategol; bu eglurder ynglŷn â llwyddo i daro targedau drwy ddefnyddio sgoriau perfformio diffiniedig, a ddogfennwyd yn llwyr; ac adroddwyd yn rheolaidd am berfformiad i Fwrdd yr ACC yn cynnwys mewn perthynas â chynlluniau gwella.


Isod, amlinellir ein cynnydd yn erbyn ein DPAon:


### DPA 1: Ariannol ac Effeithlonrwydd

Mae'r ACC wedi gwreiddio rheolaeth ariannol gref. Rydym wedi byw o fewn ein cyllideb yn ystod y flwyddyn a'n cyllideb Cronfa Cymorth Cyfreithiol a'n cyllideb Weinyddol. Bu hyn yn her oherwydd bod cyllidebau ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys arbedion a gostyngiadau mewnol o 8.2% a 9.1% yn ôl eu trefn ers y flwyddyn ariannol flaenorol.

### DPA 2: Cyflawni Gwasanaeth

Yn 2013-14 bu i ni lwyddo i gynnal perfformiad misol oedd yn uwch na'r lefelau targed ar gyfer prosesu ceisiadau sifil (85% mewn 20 diwrnod) a biliau sifil a throseddol (90% mewn 25 diwrnod gwaith) drwy gydol y flwyddyn. Hefyd, drwy gyfrwng ymweliadau â darparwyr a chydweithio rhwng ein timau Achosion a Rheoli Contractau, rydym wedi mwy na haneru nifer y biliau Sifil a'r biliau Eirioli a wrthodir (i lawr i 10.7% ac 8.9% yn ôl eu trefn) ac wedi cynnal cyfradd y camgymeriadau yn gyffredinol yn is na 1% mewn perthynas â chywirdeb a chymhwysedd ein taliadau.






### DPA 3: Enw da

Rydym wedi llwyddo i daro ein targed cyfathrebu ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, bu i ni alinio'n targedau â gweddill y WC ond bu i ni gynnal lefelau gwasanaeth yn unol â thargedau'r ACC a oedd yn fwy heriol.

Rydym wedi ateb 411 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RhG), a 90% o'r rhai hynny'n cael eu hateb o fewn y cyfnod ymateb statudol o 20 diwrnod. Rydym wedi perfformio'n dda o ran ein hadolygiadau mewnol o apeliadau yn erbyn penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau RhG, gyda 100% o'r adolygiadau'n cael eu cwblhau o fewn 20 diwrnod.

Hefyd, rydym wedi ateb 98% o ohebiaethau gan ASau o fewn 20 diwrnod a 92% o geisiadau mewn perthynas â Deddf Diogelu Data 1998 o fewn 40 diwrnod. Cyflawnwyd y rhain ar lefel oedd yn uwch na'r targed o 90%.

### DPA 4: Pobl a Galluogrwydd

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf rydym wedi gweld cynnydd o 3% yn ein sgôr ymgysylltu ag arolwg staff, a gostyngiad yng nghyfartaledd y dyddiau gwaith a gollwyd (i lawr o 7.90 diwrnod i 7.59 diwrnod) ac mae hyn yn well na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil.

## Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Rydym yn cyflwyno gwybodaeth ystadegol ar ffurf crynodeb. Gellir gweld dadansoddiad ystadegol manylach yn nogfen Gwybodaeth Ystadegol 2013-14 sydd yn ein gwefan yn https://www.gov.uk/government/collections/legal-aid-statistics

Pwyntiau i'w hamlygu:

- Cyfanswm gweithredoedd o gymorth a gwariant - Bu i'r ACC barhau i ariannu cyngor, cymorth a chynrychiolaeth ar gyfer unigolion cymwys yng Nghymru a Lloegr drwy ariannu 1.8 miliwn o weithredoedd o gymorth yn gyffredinol (Cymorth cyfreithiol Sifil a Chymorth Cyfreithiol Troseddol). [2012-13: 2.3 miliwn]. Cyfanswm y gwariant net oedd £1,709.5 miliwn. [2012-13: £1,916.7 miliwn].
- Nifer y darparwyr - Ar 31 Mawrth 2014 roedd yr ACC yn dal 1,435 o gontractau sifil a 1,519 o gontractau troseddol [Mawrth 2013: 1,899 o gontractau sifil a 1,599 o gontractau troseddol].
- Cymorth Cyfreithiol Sifil - Bu i'r ACC ariannu 0.50 miliwn o weithredoedd o gymorth cyffredinol mewn perthynas â Chymorth Cyfreithiol Sifil [2012-13: 0.93 miliwn, gostyngiad o 46% yn ystod y flwyddyn]. Roedd gwariant net Cymorth Cyfreithiol Sifil yn £800.9 miliwn [2012-13: £941.6 miliwn].

***Ein perfformiad - parhad***

- Cymorth Cyfreithiol Troseddol - Bu i'r ACC ariannu 1.32 miliwn o weithredoedd o gymorth mewn perthynas â Chymorth Cyfreithiol Troseddol [2012-13: 1.36 miliwn, gostyngiad o 3% yn ystod y flwyddyn]. Roedd gwariant Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn £908.6 miliwn [2012-13: £975.1 miliwn].
- Gweinyddol - Roedd y gwariant net yn £106.2 miliwn [2012-13: £111.4 miliwn].
- Cronfeydd Canolog - Roedd gwariant net yn £89.1 miliwn. Yn y flwyddyn flaenorol roedd Cyfrifon y WC yn cynnwys £97.8 miliwn o wariant ar gyfer Cronfeydd Canolog. Bu i'r ACC ariannu 1,619 o Orchmynion Costau Amddiffyn yn Llys y Goron [2012-13: 2,117] a 16,863 o Orchmynion Costau Amddiffyn yn llys yr ynadon [2012-13: 20,704].
- DPAon - Yn 2013-14 bu i'r ACC lwyddo mewn perthynas â'r 4 DPA [2012-13: llwyddwyd i gyflawni 6 allan o 6].

Mae'r adran hon yn cynnwys ystadegau allweddol mewn perthynas â darparu cymorth cyfreithiol drwy Gymorth Cyfreithiol Sifil a Chymorth Cyfreithiol Troseddol.

## Tabl B: Gwariant a gweithredoedd o gymorth 2013-14

| | Gwariant | Gweithredoedd o gymorth |
|---|---|---|
| | £m | 000s |
| Gwaith Cymorth cyfreithiol Sifil Trwyddedig (gros)[1] | 856.9 | 116.3 |
| Llai derbynebau gweithredu | (177.4) | - |
| Llog y gellir ei dderbyn/a dderbyniwyd etc. | (8.4) | - |
| Cynrychiolaeth Sifil (net) | 671.1 | - |
| Help Cyfreithiol[2] | 129.8 | 380.6 |
| **Cyfanswm Cymorth Cyfreithiol Sifil (net)** | **800.9** | **496.9** |
| Troseddol Is (gros)[3] | 367.3 | 1,202.8 |
| Troseddol Uwch (gros)[3] | 565.9 | 121.3 |
| llai derbynebau gweithredu, etc. | (24.6) | - |
| **Cyfanswm Cymorth Cyfreithiol Troseddol (net)** | **908.6** | **1,324.1** |
| **Cyfanswm Cymorth Cyfreithiol Sifil a Throseddol (net)** | **1,709.5** | **1,821.0** |
| **Cyfansymiau eraill nad ydynt yn segmentol[4]** | **34.7** | |
| Gweinyddiaeth yr ACC ac eithrio ffioedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | 98.7 | |
| Gweinyddiaeth yr ACC Ffioedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn unig | 7.5 | |
| **Cyfanswm Gweinyddiaeth yr ACC** | **106.2** | |
| **Cyfanswm Cronfeydd Canolog** | **89.1** | |
| **Cyfanswm costau gweithredu net yr ACC** | **1,939.5** | |

1 Mae gweithredoedd o gymorth Cynrychiolaeth Sifil yn cynnwys ceisiadau am Gynrychiolaeth Sifil a gwaith cyfryngu teuluol.
2 Mae gweithredoedd o gymorth Help Cyfreithiol yn seiliedig ar faterion newydd a gychwynnir, a gellir gweld manylion am y rhain yn nhabl "Llwyth Gwaith Help Cyfreithiol Sifil - Materion a Gychwynnwyd" yn y pecyn Gwybodaeth Ystadegol sydd ar gael yn wefan gov.uk
3 Mae gweithredoedd o gymorth Troseddol Is yn seiliedig ar niferoedd yr hawliadau; ac eithrio ail hawliadau am ddedfrydu gohiriedig. Mae gweithredoedd o gymorth Troseddol Uwch yn seiliedig ar y gorchmynion cynrychioli a roddir.
4 Mae canlyniadau eraill nad ydyn yn segmentol yn cynrychioli symiau sy'n dderbyniadwy, amhariad a diddymiadau.

| **Niferoedd: Bu i ni ariannu 1.8 o weithredoedd o gymorth mewn perthynas â chymorth cyfreithiol** | **Gwerth:** Bu i ni wario cyfanswm o £1.7 biliwn ar wariant cymorth cyfreithiol a £106.2 miliwn mewn costau gweinyddu cymorth cyfreithiol. | |
|---|---|---|
| **Holl ddarparwyr:**<br>**Ar 31 Mawrth 2014:** | **Darparwyr sifil:**<br>• 1,422 o gwmnïau darparwyr<br>• 13 o ddarparwyr cyngor dros y ffôn | **Darparwyr Troseddol:**<br>• 1,516 o gwmnïau darparwyr<br>• 3 o ddarparwyr cyngor dros y ffôn |


*Ein perfformiad - parhad*

## Cymorth Cyfreithiol Sifil

Mae Cymorth cyfreithiol Sifil yn darparu help a chynrychiolaeth gyfreithiol drwy Gyngor Cyfreithiol Sifil yn ogystal â thrwy gyfreithwyr ac asiantaethau dielw. Pan fo angen cyngor wyneb yn wyneb, cymorth neu gynrychiolaeth mewn achosion, caiff gwasanaethau eu darparu mewn dwy brif ffordd:

| Cynrychiolaeth Sifil | Help Cyfreithiol |
|---|---|
| Mae Cynrychiolaeth Sifil yn cynnwys holl feysydd gwaith sifil pan fo angen bargyfreithiwr neu gyfreithiwr i gynrychioli'r ymgeisydd. | Mae Help Cyfreithiol yn cynnwys y cyngor a'r help cychwynnol mewn perthynas â mater cyfraith sifil. Mae hefyd yn cynnwys arian ar gyfer lloches i fewnfudwyr a materion ynglŷn â chenedligrwydd. |

**Nifer y gweithrediadau o gymorth mewn perthynas â Chynrychiolaeth Sifil**





**Teuluol Preifat:** Achosion cyfraith breifat yw'r rhai sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng unigolion. Enghreifftiau yw materion ariannol yn dilyn ysgariad, preswyl neu gyswllt â phlant a thrais domestig.

**Teuluol Cyhoeddus:** Mae achosion cyfraith gyhoeddus yn cael eu dwyn gan awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys gorchmynion gofal a goruchwylio, gorchmynion amddiffyn brys a chyswllt â phlentyn mewn gofal.

**Achosion nad ydynt yn Deuluol:** Mae hyn yn cynnwys holl feysydd eraill Cynrychiolaeth Sifil, o achosion yn erbyn yr heddlu i fudd-daliadau lles.

**Cyfryngu Teuluol:** Mae hyn yn cynnwys yr holl faterion sy'n ymwneud â'r cynllun cyfryngu teuluol.

**Nifer y gweithrediadau o gymorth mewn perthynas â Help Cyfreithiol**




**Lles Cymdeithasol:** Mae'n cynnwys cyngor ar faterion ynglŷn â gofal yn y gymuned, dyled, tai, a budd-daliadau lles.

**Teuluol:** Help a chyngor ynglŷn â materion teuluol.

**Gwasanaethau dros y ffôn:** Help cychwynnol a ddarperir gan y gwasanaethau dros y ffôn.

**Iechyd Meddwl:** Cyngor ynglŷn ag iechyd meddwl.

**Mewnfudo:** Yn cynnwys materion yn ymwneud â lloches a chenedligrwydd.


**Cyngor arall:** Er enghraifft, achosion gaiff eu dwyn yn erbyn yr heddlu ac esgeulustod clinigol.

## Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Gan ffurfio rhan o'r system gyfiawnder ehangach, mae Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn sicrhau mynediad i gyngor, cymorth a chynrychiolaeth i bob unigolyn cymwys yr amheuir neu y cyhuddir o droseddu.

| Troseddol Is | Troseddol Uwch |
|---|---|
| Mae Troseddol Is yn bennaf yn cynnwys cyngor cyfreithiol mewn gorsafoedd yr heddlu, llysoedd ynadon a chyngor i bobl sydd eisoes wedi eu collfarnu am droseddu. | Mae Troseddu Uwch yn bennaf yn cynnwys cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn Llys y Goron neu uwch. |

### Nifer y gweithrediadau o gymorth mewn perthynas â Throseddol Is





**Gorsaf yr Heddlu:** Mae hyn yn cynnwys cyngor a roddir yng ngorsaf yr heddlu.

**Y Llys Ynadon:** Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth yn y llys ynadon.

**Cyfraith carchar:** Mae hyn yn cynnwys cyngor a roddir i rai sydd eisoes wedi'u collfarnu.

**Apeliadau:** Cyngor a chymorth mewn materion sy'n ymwneud ag apeliadau.

### Nifer y gweithrediadau o gymorth mewn perthynas â Throseddol Uwch




**Treialon:** Gorchmynion cynrychioli a roddir ar gyfer treialon yn Llys y Goron.

**Traddodi ar gyfer Dedfryd:** Gorchmynion cynrychioli a roddir ar gyfer collfarnau a wneir yn y llys ynadon ac a gyfeirir at Lys y Goron ar gyfer dedfrydu.

**Apeliadau:** Gorchmynion cynrychioli a roddir ar gyfer apeliadau yn erbyn collfarnu neu ddedfryd.

# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Yn 2014-15 bydd yr ACC yn parhau i weithio tuag at amcan y WC o greu system gyfiawnder sy'n fwy effeithlon, yn llai costus ac sy'n ymatebol i'r cyhoedd.

Gweler Cynllun Busnes 2014-15 yr ACC sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer 2014-15 a blynyddoedd y dyfodol.

http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/legal-aid-agency/laa-business-plan-2014-15.pdf

## Cynnal ein hamcanion strategol a chyflawni ein rhaglenni newid

Rydym yn credu mai parhau i ganolbwyntio ar ein tri amcan strategol yn ystod 2014-15 yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wireddu amcan y WC a bydd yn sicrhau cysondeb i'r staff yn ystod ail flwyddyn yr ACC. Byddwn hefyd yn cyflwyno'r rhaglenni newid uchelgeisiol canlynol fydd yn arwain at arbedion i'r pwrs cyhoeddus ac yn darparu gwell gwasanaeth i'n darparwyr:

- **Gweithredu'r diwygiadau TCC**

  Nodwyd y pecyn o ddiwygiadau yn ymgynghoriad y Llywodraeth ar Drawsnewid Cymorth Cyfreithiol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013. Bydd y rhaglen hon yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu mynediad i gymorth cyfreithiol i'r rhai sydd ei angen, yn amddiffyn y rhai mwyaf bregus yn ein cymuned ac yn darparu system gyfiawnder effeithlon.

  Fel yr asiantaeth sy'n darparu cymorth cyfreithiol, mae'r ACC yn gyfrifol am weithredu'r cynigion TCC terfynol, gan gydweithio â darparwyr er mwyn gwneud hyn mor effeithiol â phosibl. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud yn 2014-15 er mwyn gweithredu elfennau terfynol y rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r CFfGA a chyflwyno model newydd o dendro ar gyfer gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol. Mae nifer o'r diwygiadau yn gofyn am newidiadau arwyddocaol i'n systemau TG a'n prosesau busnes. Bydd y rhaglen yn sicrhau bod y newidiadau hyn yn galluogi ein timau gweithredol i barhau i weinyddu cymorth cyfreithiol yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl.

- **Gweithredu'r SRCCh**

  Pan fydd yn hollol weithredol, bydd y SRCCh yn galluogi darparwyr cymorth cyfreithiol sifil i gyflwyno'u holl geisiadau a'u biliau ar-lein, gan wella effeithlonrwydd a rheolaeth ar ein swyddogaeth gwaith achos sifil. Bydd hefyd yn gostwng yn sylweddol nifer y camgymeriadau o ran y ceisiadau a dderbynnir gennym.

  Bu i ni gynnal peilot SRCCh pryd y cafodd dros 3,000 o geisiadau eu prosesu'n llwyddiannus, ac rydym wedi cychwyn cyflwyno'r system yn raddol. Ar hyn o bryd, defnyddir y system yn wirfoddol, ond yn 2014-15 bydd hyn yn orfodol. Byddwn yn parhau i adolygu perfformiad y SRCCh ac yn cyflwyno mwy o welliannau yn seiliedig ar adborth.

- **Rhaglen Newid Troseddol**

  Amcan y RhNT yw ein galluogi i brosesu holl geisiadau a biliau cymorth cyfreithiol troseddol mewn ffyrdd di-bapur ac electronig. Fel rhan o'r rhaglen, bydd yr ACC yn trosglwyddo ac yn canoli'r broses bresennol o ymgeisio am gymorth cyfreithiol troseddol o'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i'r ACC. Byddwn hefyd yn moderneiddio'r broses o ymgeisio drwy ymestyn y defnydd o geisiadau electronig (eForms), fydd yn

galluogi darparwyr i gyflwyno ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol ar-lein, ac yn cyflwyno newidiadau i'r system filio er mwyn trosglwyddo'r gwasanaeth ar-lein. O ganlyniad i hyn, erbyn diwedd 2014-15 byddwn yn cynnig y rhan fwyaf o'n gwasanaethau ar-lein, gan wella profiad ein darparwyr yn fawr a gwneud cyfraniad sylweddol i agenda Digidol yn Bennaf Swyddfa'r Cabinet.

O dan y broses fodern ac awtomatig hon, rydym yn disgwyl gallu darparu gwell gwasanaeth cwsmeriaid i ddarparwyr yn ogystal â chreu arbedion effeithlonrwydd. Bydd y newid hwn hefyd yn arwain at fudd eilaidd, sef gwella safon y ceisiadau a darparu gwell stiwardio ariannol i'r ACC.

### Gwella parhaus

Yn ogystal â'n rhaglenni newid, byddwn hefyd yn parhau i wreiddio diwylliant o wella parhaus yn y sefydliad drwyddo draw yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn gwneud hyn drwy hyfforddiant a defnyddio sianelau cyfathrebu. Fel y dangoswyd eisoes yn 2013-14, bydd gwella parhaus yn ein galluogi i ddefnyddio potensial llawn ein pobl er mwyn sicrhau y gall y cynnydd yr ydym wedi ei greu o ran darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol barhau. Ym mhob rhan o'r ACC, bydd y staff yn gynyddol yn derbyn perchnogaeth ar y gwasanaeth maent yn ei ddarparu ac yn ei ddatblygu ac yn ei wella eu hunain. Mae'r pwyslais hwn ar wella cynyddol a pharhaus yn cael ei adlewyrchu yn ein penderfyniad i lynu at amcanion strategol 2013-14, tra'n ymestyn ac yn addasu'r DPAon ategol a'r mesurau perfformio er mwyn sicrhau ein bod yn darparu mwy am lai.

## Gwella'r ffordd yr ydym yn rhyngweithio gyda'n darparwyr

Byddwn yn datblygu mwy ar sut yr ydym yn rhyngweithio gyda'n darparwyr ac yn gwella safonau ein gwasanaeth cwsmeriaid. Un dull o wneud hyn fydd drwy ein Strategaeth Sianel newydd. Yn ystod 2014-15 a thu hwnt, bydd y Strategaeth hon yn trawsnewid yr ACC o fod yn sefydliad sy'n bennaf yn defnyddio papur i un sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i drafodion gwasanaeth cwsmeriaid drwy gyfrwng digidol. Bydd y broses hon yn cychwyn gyda Chymorth Cyfreithiol Sifil cyn ei chyflwyno i achosion troseddol, a bydd iddi ddau amcan sylfaenol:

- Gwella'r sianelau presennol er mwyn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid
- Symud y rhan fwyaf o'r cysylltiadau i'r sianelau hynny sy'n cynnig y gwerth gorau am arian a'r profiad gorau i ddarparwyr, megis e-bost a gwe-sgwrs.

Ar ôl cyflwyno'n Strategaeth Sianel newydd, byddwn yn gallu cynnig ystod o ffyrdd gwell i'n darparwyr allu cysylltu â'n gwasanaethau cwsmeriaid.

## Gwneud i'r ACC fod yn lle gwell i weithio ynddo

Mae ein profiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos pwysigrwydd ein pobl yn ystod cyfnod heriol. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn ymdrechu i wneud yr ACC yn lle hyd yn oed gwell i weithio ynddo. Mae ein Cynllun Gweithredu Cenedlaethol, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â staff o bob rhan o'r sefydliad, yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i wireddu hyn. Mae'n canolbwyntio ar dair prif thema:

- Hyrwyddo gwaith tîm lleol ac arferion da o ran rheoli llinell a gwella'r amgylchedd gwaith uniongyrchol

- Sicrhau cyfathrebu cywir a hysbysu'n pobl yn barhaus
- Buddsoddi mewn sgiliau.

Bydd y rhaglen hon yn rhan o bopeth a wnawn a bydd yn cynnwys ystod eang o fentrau, o gefnogi ein pobl i wneud y defnydd gorau o'u pum diwrnod o hyfforddiant blynyddol, i wella'r amgylchedd ffisegol maent yn gweithio ynddo.

**Trawsnewid y Ffordd yr Ydym yn Gweithio**

Mae 'Trawsnewid y Ffordd yr Ydym yn Gweithio', neu TG3, yn fenter gan Swyddfa'r Cabinet sy'n nodi'r weledigaeth ar gyfer gweithle wedi ei drawsnewid yn y Gwasanaeth Sifil. Mae TG3 yn ymwneud â nodi beth sydd ei angen arnom er mwyn gweithio'n effeithiol, ac yna mae'n cyflwyno atebion i fodloni'r anghenion hyn. Mae TG3 yn yr ACC yn cael ei ysgogi gan ein hymrwymiad i wneud yr ACC yn lle gwell i weithio ynddo. Bydd yn cynnwys herio'r ystrydeb bod gwaith yn rhywbeth a wneir wrth ddesg mewn adeilad y Llywodraeth, gan symud i fan ble caiff gwaith ei wneud mewn nifer o leoliadau, swyddfeydd, cartrefi a/neu fannau cyhoeddus eraill neu adeiladu eraill y Llywodraeth. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf bydd y fenter yn:

- Gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r ystâd bresennol o swyddfeydd er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws â ffyrdd newydd o weithio, yn cynnwys gwell defnydd o ofod a gwella'r gallu i weithio a chydweithio mewn man nad yw'n amgylchedd traddodiadol.
- Defnyddio gwell TG i gefnogi gwahanol batrymau a lleoliadau gwaith. Byddwn yn gofyn a yw'r dechnoleg bresennol yn addas i'r diben, sut allwn wneud gwell defnydd o dechnoleg fodern o ran y ffordd yr ydym yn gweithio, cyfarfod a chydweithio, a sut y gallwn greu'r gallu a'r meddylfryd digidol er mwyn cael y gorau o offer a dyfeisiadau newydd.
- Cyflwyno polisiau AD sy'n hyrwyddo gweithio doeth. Byddwn yn creu pecyn mwy hyblyg i bobl sy'n gweithio mewn timau gwaith achos, a bydd ein tîm Cost Uchel a Gwaith Achos Cymhleth yn beilot i'r WC.

Drwy fod yn arloesol ynglŷn â'n gweithle, byddwn yn gallu creu gwell effeithlonrwydd, cynhyrchiant a bodlonrwydd yn y gwaith.

**Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**



**Matthew Coats**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
18 Mehefin 2014

# Adroddiad y Prif Weithredwr

# Sylwadau ar reolaeth

Mae'r bennod hon yn nodi sut mae'r uwch dîm reoli wedi cyflawni eu dyletswyddau yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn rhoi peth sylwadau er mwyn ategu'r Datganiadau Ariannol a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn a fu.

## Sylwadau ar ganlyniadau ariannol 2013-14

Mae'r Datganiadau Ariannol yn cael eu nodi yn nhudalennau 67 i 111. Mae Cyfrifon yr ACC yn cynnwys chwe rhan i'r adroddiad; Help Cyfreithiol, Cynrychiolaeth Sifil, Troseddol Is, Troseddol Uwch, Cronfeydd Canolog a Gweinyddol, yn unol â chyllidebu a rheoli'n gwariant o ddydd i ddydd. Mae Nodyn 3 y Cyfrifon ar dudalen 83 yn manylu ar wariant gweithredu net ar gyfer pob un o'r rhannau hyn, ac mae nodiadau 4-8 yn nodi gwariant ac incwm yn fanwl ar gyfer yr holl rannau.

Yr eitem fwyaf arwyddocaol ar y fantolen yw'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith sydd wedi cael ei wneud gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr, ac asiantaethau cynghori ond nad yw wedi cael ei filio hyd yma. Amcangyfrifir gwerth y gwaith cyfredol (GC) hwn drwy nodi nifer yr achosion y dechreuwyd arnynt ac amcangyfrif y gweithgareddau sydd wedi'u cynnal mewn perthynas â'r achosion hyn gan ddefnyddio proffiliau hanesyddol o gostau achosion a hyd bob cynllun cymorth cyfreithiol unigol. Mae'r rhan fwyaf o weddill rhwymedigaethau'r ACC ar gyfer biliau a dderbyniwyd ond nad ydynt hyd yma wedi eu prosesu, ac mae'r rhain yn cael eu hystyried fel masnach daladwy, ac unrhyw waith na dalwyd amdano a nodwyd mewn hawliadau ynglŷn â thaliadau o gyfrifon, sy'n cael eu trin fel croniadau.

Mae balans derbyniadwy'r ACC yn cynnwys arian sy'n ddyledus gan gleientiaid sydd wedi derbyn cymorth cyfreithiol, a'r rhan fwyaf ohono yn ddyledus o dan ffi statudol. Mae ffioedd statudol yn cael eu codi pan fo cleientiaid a dderbyniodd gymorth cyfreithiol wedi llwyddo i ennill neu adennill ased o ganlyniad i'r help cyfreithiol maent wedi ei dderbyn. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i'r cleient ad-dalu cost ei gymorth cyfreithiol. Mae gan y cleient yr hawl i ohirio'r ad-daliad hwn, ac os bydd hyn yn digwydd bydd yr ACC yn ennill gwarant am y ddyled drwy gofnodi ffi ffurfiol am yr ased perthnasol. Bydd llog yn cael ei godi yn erbyn y ddyled hon, sef llog syml o 8%, ac mae'r ddyled yn daladwy wrth werthu'r ased yn unig, er yr anogir cleientiaid i ad-dalu dyledion er mwyn osgoi ffioedd llog. Mae'r dyledion hyn yn cael eu mesur drwy broses cydbwyso achosion sy'n rhoi ystyriaeth i gyfanswm y gwerth y gellir ei adennill i'r cleient, ac yna mae'n cyfyngu ar y swm y gellir ei adennill yn ôl y gost i'r ACC.

Mae gweddill y balans y gellir ei adennill yn arian sy'n ddyledus gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol amrywiol sydd wedi codi o adennill taliadau o gyfrifon mewn achosion a setlwyd ac adennill gordaliadau.

### Cyfarwyddyd Cyfrifon

Mae'r Cyfrifon wedi'u darparu yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan adran 7(2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r WC wedi penodi Prif Weithredwr yr ACC fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Weithredol.

Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn cynnwys yr adnoddau a dderbyniwyd, sy'n cael eu dal ac a waredwyd yn ystod y flwyddyn, a'r defnydd a wna'r ACC o

adnoddau. Darperir y Cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa'r ACC ac o'i Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lif Arian a Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol.


Mae'r ACC wedi cytuno â Thrysorlys EM y bydd ei mantolen agoriadol yn cynrychioli mantolen gloi gyfunol Cronfa Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CGCC), y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (GAT) a Gweinyddiaeth y CGC ar 31 Mawrth 2013 fel y nodir yn nodyn 2 y Datganiadau Ariannol. Mae'r cymarebau yn cynrychioli cyfanred yr eitemau y gellir eu cymharu yn Natganiadau Ariannol y CGCC, GAT a Gweinyddiaeth y CGC ar gyfer 2012-13.

Hefyd, cytunodd yr ACC â Thrysorlys EM i gydnabod trosglwyddo balans darpariaeth mewn perthynas â'r Cronfeydd Canolog oedd yn gynwysedig yng Nghyfrifon y WC ar gyfer y flwyddyn oedd yn diweddu 31 Mawrth 2013 o dan Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn Natganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr yr ACC ar gyfer y flwyddyn oedd yn diweddu 31 Mawrth 2013.

Mae datganiadau Ariannol yr ACC yn cael eu paratoi yn unol â *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* Trysorlys EM (LlAA) a safonau cyfrifyddu cymwys.

## Canlyniadau ar gyfer y flwydddyn

Mae'r ACC yn rhannu incwm a gwariant i'r rhannau gweithredol canlynol: Cronfa Cymorth Cyfreithiol, Cronfeydd Canolog a Gweinyddiaeth at bwrpas gwneud penderfyniadau gweithredol ac adrodd i Fwrdd yr ACC. Mae Cronfa Cymorth Cyfreithiol yn cael ei rhannu wedyn yn Help Cyfreithiol, Cynrychiolaeth Sifil, Troseddol Is a Throseddol Uwch.



*Sylwadau ar reolaeth - parhad*

Mae costau gweithredu net Cronfeydd Canolog yn adlewyrchu'r gwariant ar ffioedd a dalwyd i ddifinyddion sydd wedi'u rhyddfarnu sydd wedi ariannu eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat. Mae costau gweithredu net Gweinyddiaeth yn adlewyrchu costau gweinyddu gweithredu'r ACC.

Mae costau net gweithredu gan rannau gweithredol adroddadwy ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2013 yn cael eu dangos ar dudalen 83 y Datganiadau Ariannol.

Rhwng 2012-13 a 2013-14 rydym wedi gweld gostyngiad cyffredinol o £88.4 miliwn mewn gwariant net, a manylir isod ar brif weithgareddau'r rhannau gweithredol adroddadwy sydd wedi effeithio ar y gostyngiad hwn:

- **Help Cyfreithiol** – Mae gwariant Help Cyfreithiol ar ffioedd cyfreithwyr, ffioedd cwnsleriaid a threuliau wedi gostwng yn ystod 2013-14 o ganlyniad i gwtogi cwmpas, a llai o weithgaredd o ganlyniad i hynny nag yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr achosion newydd a gychwynnir gan ddarparwyr wedi gostwng 163,000 (79%) o ran achosion teuluol a 238,000 (41%) o ran achosion nad ydynt yn rhai teuluol. Hefyd bu gostyngiad arwyddocaol mewn gwariant ar Gyngor Cyfreithiol Sifil.
- **Cynrychiolaeth Sifil** – Fel y disgwyliwyd, mae newidiadau i faint a chwmpas o ganlyniad i DGC wedi gostwng gwariant ar ffioedd cyfreithwyr, ffioedd cwnsleriaid a threuliau . Rhoddwyd 35,000 (42%) yn llai o dystysgrifau ar gyfer achosion teuluol preifat ac achosion nad ydynt yn rhai teuluol, ac mae cost gyfartalog achosion wedi gostwng £204 (4%). Hefyd, mae newidiadau i brosesau system cyfiawnder teuluol wedi arwain at ostyngiad dros dro mewn gweithgaredd achosion mewn perthynas â Deddf Plant Arbennig 1989, sef y categori mwyaf o ran gwariant ar Gynrychiolaeth Sifil, oherwydd bod 3,000 (5%) yn llai o dystysgrifau wedi cael eu rhoi. Mae'r gostyngiadau hyn wedi cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer symiau dyledus mewn achosion a ariannir oherwydd gwelliannau i fodel GC.
- **Trosedd Is** – Bu gostyngiad mewn gwariant o ganlyniad i ostyngiad mewn gwaith yn y llys ynadon, gyda gostyngiad o 30,000 (6%) yn nifer yr hawliadau am gynrychiolaeth yn y llys ynadon.
- **Trosedd Uwch** – Bu gostyngiad bychan yng nghost gyfartalog achosion o ganlyniad i DGC a newidiadau cyn DGC i CFfGA. Mae niferoedd wedi gostwng o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y dyddiau eistedd yn Llys y Goron, a gostyngiad o 23% yn y contractau achosion cost uchel y talwyd amdanynt.
- **Cronfeydd Canolog** – Fel rhan o'r newid i gael statws asiantaeth weithredol, bu i'r gwariant ar Gronfeydd Canolog gael ei drosglwyddo o'r WC i'r ACC ar 1 Ebrill 2013. Nid yw cymarebau'n cael eu dangos oherwydd bod gwariant ar Gronfeydd Canolog yn ffrwd gwariant newydd i'r ACC yn 2013-14. Yn ystod y flwyddyn flaenorol roedd Cyfrifon y WC yn cynnwys £97.8 miliwn o wariant ar gyfer Cronfeydd Canolog.
- **Gweinyddiaeth** – Bu gostyngiad o £5.2 miliwn mewn costau gweinyddol, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn costau cyflogaeth, gostyngiad mewn ffioedd eiddo yn dilyn gadael ein swyddfa yn Nhŵr y Gyfnewidfa a gostyngiad mewn ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol. Mae'r ffigwr net o £106.2 miliwn am gostau gweinyddol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys £6.8 miliwn o gostau pensiwn. Dosbarthwyd costau pensiwn fel gwariant rhaglen yn 2012-13.

# Polisïau a gwybodaeth allweddol

## Polisi ac arferion talu i gredydwyr

Mae yna ddwy ffordd o dalu biliau am gymorth cyfreithiol: ffioedd penodol neu safonol a ffioedd ansafonol. Telir ffioedd safonol a phenodol drwy system ar-lein yr ACC drwy broses fisol. Dim ond ar ôl eu hasesu y mae biliau ansafonol gan ddarparwr cymorth cyfreithiol yn gymwys i dderbyn taliad. Mae perfformiad yn erbyn targedau mewnol ar gyfer talu biliau ansafonol yn brydlon yn cael ei nodi yn Nhabl C:

Tabl C: Biliau a dalwyd a pherfformiad

| Biliau a dalwyd – mesurau targed 2013-14 | Targedau 2013-14 | Perfformiad 2013-14 | Biliau a dalwyd – mesurau targed 2012-13 | Targedau 2012-13 | Perfformiad 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|
| Biliau sifil – Wedi'u trethu, wedi'u eu hasesu Taliadau o gyfrifon, Ffi Raddedig deuluol a biliau Cynllun Eiriolaeth Deuluol | 25 diwrnod (90%) | 99% | Biliau sifil - Wedi'u trethu, wedi'u hasesu, Taliadau o gyfrifon, Ffi Raddedig Deuluol | 30 diwrnod (90%) | 98% |
| Troseddol ffi ansafonol ac achosion ymchwiliol eithriadol | Ebr – Meh 2013 30 diwrnod (90%)<br><br>Gorff 2013 – Maw 2014 25 diwrnod (90%) | 99%<br><br>99% | Troseddol, ffi ansafonol<br><br>Achosion ymchwiliol eithriadol | 30 diwrnod (90%)<br><br>30 diwrnod (90%) | 99%<br><br>99% |
| CFfGC a CFfGA | Ebr – Meh 2013 30 diwrnod (90%)<br><br>Gorff 2013 – Maw 2014 25 diwrnod (90%) | 97%<br><br>97% | CFfGC a CFfGA | 30 diwrnod (90%) | 94% |

Roedd mesur perfformiad prosesu biliau cymorth cyfreithiol troseddol (ffioedd troseddol ansafonol ac achosion ymchwiliol eithriadol a hawliadau am ffioedd CFfGC a CFfGA) yn destun gostyngiad fesul cam ers Mehefin 2013 er mwyn adlewyrchu'r gwelliannau a ddisgwyliwyd o ran prosesu biliau.

## Gwelliannau rheoli

Yn 2013-14 bu i'r ACC barhau â'i Rhaglen Stiwardio. Bu hon yn rhaglen gynhwysfawr a ddyluniwyd i wella systemau TG yr ACC, ei phrosesau a'r systemau rheoli a sefydlwyd i ganiatáu cymorth cyfreithiol yn briodol i gleientiaid a thalu i ddarparwyr cymorth cyfreithiol. Goruchwyliwyd cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r rhaglen gan y Grŵp Llywio Stiwardio oedd yn cynnwys uwch reolwyr yr ACC o bob rhan o'r sefydliad. Mae'r Grŵp Llywio yn darparu diweddariadau rheolaidd i Dîm Rheoli Gweithredol yr ACC ac i Fwrdd yr ACC. Amlygwyd llwyddiant y Rhaglen wrth ddiddymu amod rheoleidd-dra o Gyfrifon blwyddyn olaf y CGC ar gyfer 2012-13.

Mae enghreifftiau o'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys mwy o welliannau i brosesau mewnol yr ACC ar gyfer asesu cymhwysedd cleientiaid cymorth cyfreithiol. Bu i ni gyhoeddi mwy o ganllawiau i ddarparwyr ynghylch sut i gyflwyno hawliadau cywir mewn perthynas â mewnfudo a lloches a hyrwyddo pecyn hyfforddi ategol ar-lein. Mae mwy o welliannau wedi cael eu gwneud i'n profion rheoli ansawdd er mwyn lleihau mwy ar y camgymeriadau posibl. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys asesu modd a thalu'r biliau terfynol.

Mae'r ACC yn parhau â'i Rhaglen o alluogi i bob trafodyn gael ei wneud ar-lein. Mae cynnydd yn parhau o ran gweithredu'r SRCCh, system a ddyluniwyd i awtomeiddio prosesu achosion Cynrychiolaeth Sifil. Mae'r ACC wedi cychwyn rhaglen a ddyluniwyd i osod gweddill elfennau prosesu cymorth cyfreithiol troseddol ar-lein.

## Gwelliannau o ran atal twyll

Drwy gydol 2013-14 bu i'r ACC barhau i ddatblygu ei alluogrwydd gwrth-dwyll drwy weithredu ei Strategaeth Gwrth-dwyll. Mae rhaglen waith ar y risg o dwyllo yn parhau gyda ffocws penodol ar gaffael a thaliadau i ddarparwyr sy'n cyflwyno hawliadau mewn perthynas â mewnfudo a lloches. Mae'r ACC hefyd wedi cymryd rhan mewn ymarferiad peilot paru data gyda'r Fenter Dwyll Genedlaethol. Bydd ein gwaith o asesu risg twyll yn canolbwyntio ar gynllun asesu risg twyll yn y WC gyfan yn 2014-15.

Gwnaethpwyd gwaith sylweddol i gynyddu'r cydweithio rhwng yr ACC, timau Gwrth-dwyll y WC ehangach, adrannau eraill y Llywodraeth a chyrff rheoleiddio. Bu i gydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) arwain at arbedion o dros £0.5 miliwn i'r ACC a llwyddo i gollfarnu pedwar o gleientiaid cymorth cyfreithiol. Bu i'r ACC a'r AGPh ennill y wobr Cydweithio yn seremoni'r Gwobrau Twyll Cenedlaethol yn 2013 am eu dull ar y cyd o ymladd yn erbyn twyll. Hefyd, datblygwyd perthnasoedd gweithio agos â'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, CThEM a'r Gwasanaeth Ansolfedd. Bu i'r ACC hefyd barhau i weithio'n agos ag awdurdodau lleol a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Bu i'r ACC ddatblygu mwy ar ei allu i gynnal ymchwiliadau gwrth-dwyll llwyddiannus i ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac i erlyn gweithredoedd o dwyll yn erbyn cymorth cyfreithiol. Bu i weithgaredd gwrth-dwyll yr ACC arwain at adennill neu gadw cyfanswm o tua £1.2 miliwn yn 2013-14 a £2.5 miliwn o arbedion.

## Gweithio gyda darparwyr

Rydym yn parhau â'n gwaith trylwyr â darparwyr cymorth cyfreithiol er mwyn gwella mwy ar y ffordd y cyflwynir hawliadau am daliadau Help Cyfreithiol. Dyluniwyd y gwaith hwn er mwyn lleihau'r risg o wneud camgymeriadau.

Rhoddwyd canllawiau ysgrifenedig i ddarparwyr ac roedd nifer o fodiwlau hyfforddiant ar-lein ar gael yr oedd darparwyr yn gallu cael mynediad iddynt am ddim. Hefyd, rydym yn proffilio darparwyr o ran risg yn seiliedig ar yr hawliadau a gyflwynwyd ganddynt a'u hanes o gydymffurfio er mwyn darparu fframwaith i reolwyr contract yr ACC sy'n gyfrifol am reoli'r berthynas â darparwyr a swyddogaeth sicrwydd mewnol yr ACC. Bu i dimau ymweld â darparwyr er mwyn cynnig arweiniad a chefnogaeth i helpu darparwyr hawlio'n fwy cywir a, phan fo'n berthnasol, ganfod a chywiro camgymeriadau ac adennill gordaliadau.

Rhoddwyd pwys mawr ar weithio gyda darparwyr mewn perthynas â gwaith teuluol, mewnfudo a lloches. Yn unol â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus*, roedd yr ACC yn weithredol yn ceisio adennill arian mewn sefyllfaoedd pan fo darparwyr wedi cael eu gordalu. O ganlyniad i'r gwaith hwn, bu i'r ACC adennill dros £6 miliwn o ordaliadau yn 2013-14.

Yn ogystal â sicrhau'r adenillion hyn, bu i'r ACC gyhoeddi 932 o rybuddion contract, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wella'r ffordd y maent yn hawlio am daliadau o fewn cyfnod penodol, gweithredu 142 o sancsiynau contract, sy'n gosod cyfyngiadau o ran y gwaith y gellir ei wneud, a diddymwyd dros 80 o gontractau. Bu i'r ACC ddilyn pob rhybudd contract er mwyn sicrhau bod y darparwyr wedi unioni unrhyw wendidau a nodwyd yn eu gweithdrefnau.

Bydd yr ACC yn parhau â'r gwaith hwn er mwyn gwella rheoli hawliadau am daliadau cymorth cyfreithiol drwy gydol 2014-15.

## Adrodd am ddigwyddiadau mewn perthynas â data personol

Yn 2013-14 adroddwyd am 293 o ddigwyddiadau mewn perthynas â data personol i'r WC yn unol â'n gweithdrefnau adrodd cytunedig (gweler tabl D). Er bod y nifer hwn yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol, mae'n adlewyrchu effeithiolrwydd y gwaith sylweddol a wnaethpwyd ym mhob rhan o'r ACC i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â diogelwch gwybodaeth a phwysigrwydd adrodd am ddigwyddiadau. Yn ystod y flwyddyn bu i'r ACC adnewyddu ei pholisi a'i phrosesau rheoli digwyddiadau diogelwch, a chyflwyno nifer o weithgareddau er mwyn hyrwyddo arferion effeithiol mewn perthynas â diogelwch gwybodaeth. Mae hyn wedi hwyluso adnabod digwyddiadau ac adrodd yn gyflym am ddigwyddiadau mewn perthynas â data, eu rheoli'n brydlon, a'r dadansoddi dilynol o dueddiadau er mwyn ymdrin â gwendidau penodol.

Rydym hefyd yn ystyried a oedd yna unrhyw ddigwyddiad oedd yn ddigon difrifol i adrodd amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG). Bu i ni adrodd ein hunain am un digwyddiad i'r SCG drwy Uned Mynediad i Ddata a Chydymffurfedd y WC ym mis Awst 2013. Bu i'r SCG gau'r achos ym mis Tachwedd 2013, heb gymryd camau, gan nodi'r camau unioni a gymerwyd gan yr ACC i hysbysu'r cleient yr effeithiwyd arno a chydnabod y gwaith a wnaethpwyd i godi ymwybyddiaeth ynghylch diogelwch gwybodaeth. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiad difrifol arall a olygai bod angen dadansoddi pellach.

Tabl D: Crynodeb o ddigwyddiadau mewn perthynas â data personol yn 2013-14

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig , dyfeisiadau neu ddogfennau papur nad oeddent wedi ei ddiogelu'n ddigonol o adeiladau diogel y Llywodraeth. | 66 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiadau neu ddogfennau papur nad oeddent wedi ei ddiogelu'n ddigonol o du allan i adeiladau diogel y Llywodraeth. | 20 |
| III | Gwaredu anniogel offer electronig, ddyfeisiadau neu ddogfennau papur nad oeddent wedi ei ddiogelu'n ddigonol | 0 |
| IV | Datgeliad anawdurdodedig | 207 |
| V | Arall | 0 |

## Busnes hyfyw

Nodir sail busnes hyfyw yn nodyn 1a Datganiadau Ariannol yr ACC. Mae Datganiadau Ariannol yr ACC mewn perthynas â'r flwyddyn sy'n diweddu ar 1 Mawrth 2014 yn cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw yn unol â'r LlAA a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2014 yn dangos rhwymedigaethau net o £731.2 miliwn (2012-13: rhwymedigaethau net o £760.1 miliwn).

Mae Darpariaeth ar gyfer Gwariant ar Adnoddau a Chyfalaf, a Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer 2014-15 ar gyfer y swyddogaethau a gyflawnir gan yr ACC, wedi cael eu cynnwys eisoes yn amcangyfrifon y WC. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd, ac nid oes unrhyw le i gredu na fydd nawdd y WC yn y dyfodol na chymeradwyaeth y Senedd yn y dyfodol yn dod i ben.

## Pwerau caniatáu grantiau a benthyciadau

O dan adran 2 "trefniadau" Deddf DCCDChT 2012, caniateir i'r Arglwydd Ganghellor wneud trefniadau drwy (a) ganiatáu grantiau neu fenthyciadau i alluogi personau i ddarparu gwasanaethau neu i hwyluso darparu gwasanaethau; (b) caniatáu grantiau neu fenthyciadau i unigolion i'w galluogi i gaffael gwasanaethau; a (c) sefydlu a chynnal corff i ddarparu gwasanaethau neu i hwyluso darparu gwasanaethau.

Ar ran yr Arglwydd Ganghellor, roedd yr ACC yn gallu ariannu gwasanaethau fel rhan o Gymorth Cyfreithiol Sifil drwy ganiatáu grantiau neu fenthyciadau i bobl neu gyrff er mwyn eu galluogi i ddarparu neu hwyluso darparu gwasanaethau. Yn ystod 2013-14 bu i'r ACC ganiatáu grantiau yn unol â chyfarwyddiadau penodol yr Ysgrifennydd Gwladol. Adroddir am y gwariant hwn yn nodyn 7 Datganiadau Ariannol yr ACC o dan y penawdau: 'Grantiau a Gwasanaethau Uniongyrchol'.

## Ymchwil a Datblygu

Mae'r WC yn darparu'r holl ymchwil i'r ACC er mwyn hysbysu datblygu polisi a gwerthuso rhaglenni.

## Offerynnau ariannol

Oherwydd bod gofynion ariannol yr ACC yn cael eu bodloni drwy brosesau amcangyfrif, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg na fyddai fel arfer yn gymwys i asiantaeth weithredol o'r un maint. Gweler nodyn 12 Cyfrifon yr ACC am fanylion am offerynnau ariannol a risg cysylltiedig.

## Archwilwyr

Mae paragraff 7(3) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 yn darparu mai archwiliwr allanol yr ACC yw'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Datgelir cost genedlaethol yr archwiliad yn nodyn 6 Datganiadau Ariannol yr ACC ac mae'n berthnasol i waith archwilio statudol yn unig.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, nid oes yna wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag archwilio nad yw'r Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol yn ymwybodol ohono. Rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag archwilio ac i sefydlu bod archwilwyr yr ACC hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Ymgysylltu yng Nghymru

Mae'r ACC yn cynnal cysylltiadau agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel cydnabyddiaeth o'r weinyddiaeth ddatganoledig. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol â grwpiau o randdeiliaid megis Byrddau Cyfiawnder Troseddol a Theuluol yng Nghymru, yn ogystal â rhanddeiliaid penodol yng Nghymru megis Cyngor Ar Bopeth, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru a Shelter Cymru.

# Amgylcheddol, cymdeithasol, cymunedol a hawliau dynol

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r ACC yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn rhoi sylw priodol i gydraddoldeb wrth ddarparu cymorth cyfreithiol a'n bod yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein pobl.

Mae gan yr ACC bum aelod uwch o'r staff sy'n Bencampwyr Amrywiaeth y WC sy'n cynrychioli meysydd amrywiol. Mae'r WC yn hyrwyddo Pencampwyr Amrywiaeth sy'n chwarae rôl bwysig wrth helpu i wreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd o'n busnes, a chefnogi'r gwaith ym mhob rhan o'r WC er mwyn cyflawni blaenoriaethau o ran amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysedd.

Yn ystod 2013-14, bu i'r ACC osod pum blaenoriaeth mewn perthynas ag amrywiaeth:

1. Cofleidio amrywiaeth drwy arweinyddiaeth y sefydliad
2. Gwella'r gefnogaeth i bobl ag anableddau
3. Creu diwylliant cynhwysol o ran patrymau gwaith gwahanol
4. Cefnogi cynrychiolaeth amrywiol o bobl ar raddfeydd uwch, a
5. Gwella gallu pobl i ystyried eu dyletswydd i gydraddoldeb er mwyn ein galluogi i gomisiynu a gweinyddu cymorth cyfreithiol yn effeithlon.

Nodir rhai o'n llwyddiannau yn 2013-14 isod:

- Sefydlu Pencampwyr Anabledd yn dilyn adborth gan bobl ag anableddau
- Hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth o iechyd meddwl Amser Newid
- Cynnal arolwg ar-lein ar ddiwylliant gweithio hyblyg, gyda thua 300 o bobl yr ACC yn cymryd rhan
- Hyrwyddo hyfforddiant ar-lein y Gwasanaeth Sifil ar gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Bu i bobl ym mhob rhan o'r ACC ystyried eu dyletswydd i gydraddoldeb yn eu gwaith bob dydd. Er enghraifft, bu i ni ystyried ceisiadau am addasiadau rhesymol gan gleientiaid cymorth cyfreithiol ag anabledd a rhagweld anghenion amrywiol cleientiaid a darparwyr cymorth cyfreithiol o ran comisiynu a darparu cymorth cyfreithiol.

Mae gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth a gyhoeddwyd gan yr ACC ar gael yn wefan yr adran Gyfiawnder yn: https://www.gov.uk/government/publications/corporate-equality-information

Bydd gwybodaeth ychwanegol am amrywiaeth gweithlu'r ACC yn cael ei gyhoeddi gan y WC yn ddiweddarach yn 2014.

## Cyflogi pobl anabl

Mae'r ACC wedi mabwysiadu polisïau'r WC mewn perthynas â chyflogi, hyfforddi, datblygu gyrfaoedd a hyrwyddo pobl ag anableddau. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Cyfle Cyfartal ac Anabledd y WC a'r Llawlyfr Gallu. Mae gan ein pobl fynediad i Wasanaeth Cefnogi Addasiad Rhesymol y WC a rhaglenni hyfforddi gweithredu positif a datblygu gyrfaoedd y Gwasanaeth Sifil a dargedir i gefnogi pobl ag anabledd.

## Rhyw

Ar 31 Mawrth 2013, yn ôl y data oedd ar gael ar ryw, roedd yr ACC yn cynnwys 867 o weithwyr benywaidd a 628 o weithwyr gwrywaidd.

## Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Fel y nodir yn nodyn 5 y Cyfrifon, o 1 Ebrill 2013 caewyd Cynllun Pensiwn Rhif 4 y CGC i staff presennol.

Ymrestrwyd holl staff presennol y CGC ar 31 Mawrth 2013 yn awtomatig ar Gynllun Premiwm Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Cynllun buddion diffiniedig aml gyflogwr nad yw'n cael ei ariannu yw'r PGPGS sy'n paratoi ei gyfrifon ei hun ond na all cyflogwyr unigol sy'n rhan ohono nodi eu cyfran hwy o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Bydd holl staff newydd yr ACC ar ôl 1 Ebrill 2014 yn cael eu hymrestru'n awtomatig ar y Cynllun Nuvos. Mae cyflogwyr yn gallu eithrio'u hunain o'u cynllun buddion diffiniedig presennol er mwyn agor cyfrif pensiwn mewn partneriaeth, sy'n bensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniadau gan gyflogwyr.

Ceir mwy o fanylion am y cynlluniau PGPGS yn yr Adroddiad Cydnabyddiaethau ar dudalen 48.

### Data ar absenoldeb salwch

Gweler ein cerdyn sgorio pobl DPA ar dudalen 19 am ddata ar absenoldeb salwch.

### Cynllunio arweinyddiaeth ac olyniaeth

Mae galluogrwydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn y sefydliad, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer busnes gan ddechrau â'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae adolygiadau Rheoli Talent yn cael eu cynnal yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn a hynny wedi'i alinio â'r flwyddyn rheoli perfformiad. Mae'r holl Weision Sifil Uwch (GSU), Band A, B a Swyddogion Llwybr Cyflym yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio matrics rheoli talent y Gwasanaeth Sifil sy'n asesu perfformiad a photensial unigolion, ac fe'i defnyddir at bwrpas datblygu a chynllunio gyrfaoedd. Mae Pwyllgor Gweithredol y WC yn ystyried cynllunio talent ac olyniaeth y GSU ym mhob rhan o'r WC a'i hasiantaethau. Mae'r ACC wedi defnyddio'r matrics talent i enwebu pobl i gymryd rhan yn rhaglen dalent dwy groes Whitehall - Cynllun Uwch Arweinwyr (Dirprwy Gyfarwyddwr) a Chynllun Arweinwyr y Dyfodol (Band A). Rydym hefyd yn cymryd rhan yng Nghynllun Datblygu Arweinwyr Cyfiawnder (Dirprwy Gyfarwyddwr).

Mae'r ACC yn cynnal rhaglen er mwyn datblygu galluogrwydd ym mhob rhan o'r ACC yn unol â Diwygio'r Gwasanaeth Sifil ac mae'n gweithio'n agos â Thîm Dysgu Corfforaethol y WC. Cyflwynwyd nifer o fentrau er mwyn cefnogi gallu rheolwyr llinell a datblygu sgiliau ym mhob rhan o'r ACC, yn cynnwys cynllun datblygu Band D a ddyluniwyd ac a gyflwynwyd i rai meysydd busnes.

Ceir manylion am gyfansoddiad ein trefn lywodraethu yn yr adroddiad Strategol ar dudalen 9.

### Materion Amgylcheddol

Mae ffocws yr ACC o ran cynaliadwyedd ar gyrraedd targedau'r Llywodraeth, lleihau effeithiau amgylcheddol a gostwng costau. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys gostwng allyriadau carbon, lleihau'r defnydd o ddŵr ac ailgylchu mwy o wastraff.

Ceir mwy o fanylion yn adroddiad Cynaliadwyedd yr ACC ar dudalen 40

### Rhoddion gwleidyddol

Yn ystod 2013-14 ni roddodd yr ACC unrhyw roddion gwleidyddol (2012-13: dim).

**Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

**Matthew Coats**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
18 Mehefin 2014

ISBN 978-1-4741-0593-4
9 781474 105934